

**Adolygiad Annibynnol o Ddarpariaeth Ddysgu Colegau
Addysg Bellach a Pherthnasedd y Ddarpariaeth Honno o
ran Cefnogi Busnesau Fferm yng Nghymru**

Ionawr 2015

Wynne Jones

Cynnwys

Rhagair	3
1. Colegau sy'n cynnig darpariaeth amaethyddol yng Nghymru	5
2. Rhai nodweddion ar weithgareddau amaethyddol y sector prifysgolion ac asiantaethau allweddol eraill yng Nghymru	16
3. Darparwyr Addysg Bellach Amaethyddol a'r cyd-destun yng Nghymru	20
4 Materion Cyflogaeth a Hyfforddiant.....	34
5 Y gadwyn cyflenwi pobl.....	46
Atodiad A: Rhestr o gyfranwyr.....	51
Atodiad B: Cynllun Gweithredu o Professionalism in Agriculture – People Progression Profit (Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, 2013).....	53
Atodiad C: Adroddiadau a ystyriwyd.....	56
Atodiad D: Rhestr Termau.....	53

Rhagair

Cefais gomisiwn gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o ddarpariaeth ddysgu colegau addysg bellach a pherthnasedd y ddarpariaeth honno o ran cefnogi busnesau fferm yng Nghymru. Wrth gynnal fy adolygiad, cefais fy arwain gan yr amodau gorchwyl cytunedig canlynol:

- cael dealltwriaeth am ddarpariaeth ddysgu colegau addysg bellach (AB) yng Nghymru, a pherthnasedd y ddarpariaeth honno i brosesau ffermio'r 21ain ganrif, a llunio argymhellion ar gyfer newid, lle y bo'n briodol
- archwilio synergeddau posibl ar gyfer cydweithio a pherthnasoedd y gellid eu datblygu rhwng colegau a'r diwydiant ffermio
- adnabod goblygiadau ehangach datblygiadau yn y farchnad lafur a gofynion o ran sgiliau ar gyfer amaethyddiaeth a gweithgareddau cysylltiedig
- ystyried a yw maint y ddarpariaeth ddysgu mewn pynciau sy'n ymwneud â diwydiannau'r tir yn ddigonol ar gyfer anghenion y diwydiant ffermio
- archwilio'r ddarpariaeth bresennol o ran gwaith datblygiad personol a busnes parhaus (Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)) sydd ar gael a pha gyfleoedd sydd i ddatblygu yn y dyfodol i helpu i broffesiynoli'r diwydiant ac o bosibl ardystio rhai safonau.

Wrth gynnal yr adolygiad, rwyf wedi cynnal cyfarfodydd a chyfweliadau gyda thrawstoriad o bobl er mwyn cael dealltwriaeth eglur am lefel y gweithgareddau a ffurf y sector colegau addysg amaethyddol. Yn ystod y trafodaethau hyn medrais archwilio'r heriau sy'n wynebu'r sector yn ogystal â'r cyfleoedd sydd ar gael iddo. Hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad i'r unigolion a enwir yn atodiad A sydd wedi cymryd rhan yn yr adolygiad.

Hefyd, rwyf wedi darllen trwy adroddiadau niferus â pherthnasedd cyfredol i'r adolygiad. Daeth yn amlwg o hyn na ellir ystyried colegau amaethyddol ar wahân – yn strwythurol nac yn swyddogaethol.

Crëwyd argraff arnaf gan weithgareddau'r fforwm AgriSkills sydd wedi mabwysiadu safbwynt sy'n ystyried y DU gyfan gan hefyd ddarparu fframwaith galluogol i Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio. Mae wedi mabwysiadu diffiniad eang o "sgiliau" yng nghyd-destun ei adroddiad. Mae ei ddiffiniad yn cynnwys sgiliau technegol, rheoli, entrepreneuraidd ac arwain, dysgu cychwynnol a chydol oes (DPP), dysgu anffurfiol ac achrededig, addysg uwch a phellach (ni waeth beth fo'r dull darparu), a throsglwyddo gwybodaeth a thechnoleg. Daw'r broses ddarparu'n llai cydlynol ac effeithiol oherwydd natur dameidiog y cyllid a'r sefydliadau sydd â gorchwyl i ddarparu.

Rwyf wedi mabwysiadu'r diffiniad eang hwn o sgiliau yng nghyd-destun yr adroddiad hwn i gynorthwyo gyda'r broses o hyrwyddo seilwaith cydlynol a chyd-drefnedig i gefnogi datblygiad cyfalaf dynol a chymdeithasol Cymru wledig.

Un thema gyffredin a oedd yn dod i'r amlwg oedd hyrwyddo cylch gwaith ehangach i golegau addysg â darpariaeth amaethyddol yng Nghymru, a mwy o integreiddio â darpariaeth y sector prifysgolion ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru. Hefyd, bu tuedd gref tuag at gydweithio mwy strwythuredig rhwng y sector addysg uwch a'r sector addysg bellach a'r asiantaethau hynny sydd â chysylltiad agos â'r sector ffermio o ran darparu cymorth busnes a mentrau cyfnewid gwybodaeth; yn bennaf Cyswllt Ffermio, y cyrff a gyllidir ag ardoll a'r sector preifat fel y maent yn gweithredu yng Nghymru.

Roedd yr adolygiad yn ceisio esgor ar argymhellion sy'n darparu cydlyniant, gallu, galluogrwydd a nodweddiad parhaus ar gyfer gweithgareddau addysgol amaethyddol yng Nghymru. Mae angenrheidiau addysgol ac angenrheidiau'r diwydiant yn bwysig i lunio'r strwythurau ar gyfer darparu addysg amaethyddol yn y dyfodol.

Mae fy niffiniad i o amaethyddiaeth yn cofleidio cyfeiriadau at weithgareddau ffermio, defnyddio tir a pheirianyddol. Mae hwn yn ôl troed culach nag un Lantra, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer diwydiannau'r tir. Yn yr un modd, wrth gyfeirio at ddarparwyr addysg amaethyddol yn y sector addysg bellach rwy'n cyfeirio at y colegau addysg bellach hynny a chanddynt ddarpariaeth amaethyddol ac adnoddau ffisegol cysylltiedig.

Mae gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth hollbwysig o ran sicrhau cydlyniant sefydliadau a strwythurau darparu. Mae'n bwysig iawn bod y diwydiant amaethyddol a'i sefydliadau'n chwarae rhan lawn yn y gwaith i bennu'r agenda gyda'r Llywodraeth i sicrhau cyfranogiad cynhwysfawr ac ystyrlon yn y broses ddarparu.



Wynne Jones

1. Colegau sy'n cynnig darpariaeth amaethyddol yng Nghymru

Mae nifer o adolygiadau o'r sector colegau amaethyddol yng Nghymru wedi cael eu cynnal yn y gorffennol, gan gael eu hysgogi i raddau helaeth gan ddiffyg màs critigol o fyfyrwyr. Roedd effaith yr argymhellion, a oedd wedi'u bwriadu i annog colegau i gydweithio a symud tuag at ddarparu cwricwlwm cyffredin ar draws y sector, yn gyfyngedig, fel yr ystyrir isod.

1.1 Adolygiad Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa)

Cynhaliwyd yr adolygiad mawr diwethaf o'r sector amaethyddol a sector diwydiannau'r tir yn 2002 ar gomisiwn gan ELWa.

Roedd hyn ar adeg pan oedd y sector ffermio'n mynd trwy gyfnod anodd yn dilyn argyfwng clwy'r traed a'r genau yn y DU yn 2001. Roedd yr anawsterau blaenorol a pharhaus gydag Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) wedi bod yn ergyd drom i'r sector ffermio yng Nghymru o ystyried y canlyniadau mawr i'r sectorau llaeth, eidion a defaid. Roedd hefyd ar adeg pan oedd y niferoedd ymhlith y genhedlaeth iau a oedd yn ymddiddori mewn amaethyddiaeth ac yn cael eu recriwtio i'r diwydiant yn isel nid dim ond yng Nghymru ond ledled y DU. Yn wir, roedd llawer o rieni'n annog eu meibion a'u merched i geisio gyrfaedd y tu allan i'r diwydiant ffermio ymarferol, o ganlyniad i broffidioldeb isel a chanfyddiadau negyddol am y diwydiant ac, o bosibl, addysg alwedigaethol.

Fe amlygodd adolygiad ELWa nifer o faterion allweddol:

- Gormod o gystadleuaeth rhwng colegau addysg bellach
- Hygrededd colegau ymhlith dysgwyr a'r diwydiant
- Lefel annigonol o fusnes ar ffermydd colegau i ail-fuddsoddi cyfalaf mewn adnoddau ffisegol a phobl
- Cyfraddau recriwtio gostyngol, yn enwedig ar gyfer y Diploma Cenedlaethol mewn Amaethyddiaeth (Lefel 3)
- Diffyg màs critigol o bobl a gweithgarwch sy'n angenrheidiol i ail-fuddsoddi cyfalaf i wasanaethu dysgwyr a'r diwydiant. Fe arweiniodd hyn at lai o allu a galluogrwydd yn y sector colegau amaethyddol yng Nghymru.

Nid oedd yr adolygiad yn bwriadu i hyn gael ei ystyried yn feirniadaeth, ond yn hytrach yn ffaith. Yn wir, fe wnaeth yr adolygiad nodi meysydd lle'r oedd cyfleoedd yn bodoli i'r colegau. Un sylw allweddol oedd, "Ar y cyfan nid yw cyfleoedd ac adnoddau darparwyr AB yn cael eu disgrifio'n dda mewn mentrau polisi, ymchwil a throsglwyddo technoleg ehangach". Roedd yn nodi bod y gweithgareddau a oedd yn cael eu darparu gan strwythurau newydd a oedd wrthi'n esblygu e.e. Cyswllt Ffermio ymysg eraill, yn cynnig cyfleoedd i AB wneud cyfraniad.

1.2 Newidiadau Strwythurol Diweddar i Addysg Bellach sy'n Effeithio ar Amaethyddiaeth yng Nghymru

Mae materion o ran polisi, cyllid, mäs critigol a maint wedi arwain at nifer o brosesau uno sy'n golygu nad oes unrhyw golegau amaethyddol annibynnol yng Nghymru bellach:

- Fe unodd Coleg Sir Gâr (Gelli Aur) â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar 1 Awst 2013
- Roedd Coleg Meirion Dwyfor (Glynllifon) wedi uno'n flaenorol â Choleg Llandrillo (2010). Daeth Grŵp Llandrillo Menai i fodolaeth o ganlyniad i uno Coleg Menai a Choleg Llandrillo (2013)
- Mae Coleg Glannau Dyfrdwy wedi uno'n flaenorol â Choleg Garddwriaeth Cymru (Awst 2009) a Choleg Llysfasi (2010). Fe unodd Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl Wrecsam wedyn ar 1 Awst 2013 i greu Coleg Cambria
- Fe unodd Coleg Powys a Choleg Castell-nedd Port Talbot ar 1 Awst 2013 (Mae gan Goleg Powys gynlluniau i gynnig gradd sylfaen a fydd yn cael ei dilysu gan Brifysgol Glyndŵr)
- Mae Coleg Gwent yn gweithredu astudiaethau'r tir o'i Gampws ym Mrynbuga, a chaiff y cymwysterau eu dilysu trwy Brifysgol De Cymru
- Mae Coleg Pen-y-bont yn gweithredu ei ddarpariaeth o ran astudiaethau'r tir o'i leoliad ym Mhen-coed. Mae ganddo drefniant dilysu gyda Phrifysgol De Cymru
- Dim ond darpariaeth gyfyngedig sydd gan Goleg Sir Benfro o ran astudiaethau'r tir.

O ran y newidiadau diweddar hyn, megis dechrau datblygu y mae'r strwythurau a pherthnasoedd newydd a megis dechrau hefyd y mae'r broses o adnabod ffyrdd o ehangu cyfleoedd ac o adnabod yr heriau a wyneb. Mae gan y tri choleg cyntaf a grybwyllir uchod nifer o ffactorau cyffredin o ran darpariaeth Lefel 3 yng Nghymru.

Mae cryn dipyn i'w edmygu yn uchelgais, cyfanrwydd sefydliadol a chyfeiriad strategol y sector AB o ran darpariaeth amaethyddol. A hwythau'n rhan o gorfforaeth fwy, mae gan lawer ohonynt gysylltiadau cryf â diwydiannau penodol, a gweithgarwch entrepreneuraidd yn eu hardaloedd lleol, mewn disgyblaethau a sectorau diwydiannol eraill. Mae ganddynt gryn dipyn i'w gynnig i gyfoethogi'r bartneriaeth leol â diwydiant a, thrwy gydweithio, ar lefel genedlaethol. Mae'r dull amlddisgyblaethol a natur drosglwyddadwy'r dull hwn yn ganmoladwy ac yn ein cymell i geisio llwybrau i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gynigir.

1.3 Rhai nodweddion nodedig ar y colegau â darpariaeth amaethyddol yng Nghymru

Bydd gradd sylfaen ar y cyd mewn amaethyddiaeth trwy drefniant breiniol rhwng Prifysgol Aberystwyth a Choleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai yn dechrau yn 2015. Mae'r rhaglen ran-amser dros bedair blynedd yn defnyddio'r ddwy set o adnoddau ac mae wedi'i bwriadu ar gyfer y rhai y mae eu sefyllfaoedd cartref yn cyfyngu ar y posibiladau o ran ymgymryd â rhaglen Addysg Uwch (AU) lawn-amser. Mae llwybr ymadael interim yn bodoli ar ddiwedd blwyddyn 2, gyda Thystysgrif Addysg Uwch yn cael ei dyfarnu.

Rhan bwysig o'r cwricwlwm sydd wrthi'n datblygu ac a gynigir ar draws nifer o golegau yw darparu cyrsiau tir galwedigaethol ar gyfer disgyblion ysgol 14-16 oed mewn partneriaeth gydag ysgolion lleol. Astudio amaethyddiaeth yw'r dewis mwyaf poblogaidd o blith ystod o gyrsiau. Mae cannoedd yn cyfranogi ynddynt ar hyn o bryd ac mae'n rhaid i'r fenter hon gael ei chefnogi gan y Llywodraeth a'r sectorau ffermio a bwyd.

Mae'r colegau'n darparu nifer cynyddol o gyrsiau byr cost-lawn (sy'n seiliedig ar sgiliau yn bennaf). Mae cannoedd o gyrsiau'n cael eu cynnig gan y colegau hyn, ac maent yn cyrraedd ystod a nifer eang o fuddiolwyr. Mae Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai yn cydweithio ar ddatblygiadau eraill o'r math yma ar gyfer darparu ar y cyd.

Bu buddsoddiadau sylweddol yn ddiweddar mewn adnoddau dysgu a fferm. Mae cyfleoedd preswyl yn bodoli ond gall y rhain brofi i fod yn ffactor cyfyngol yn y dyfodol mewn rhai canolfannau. Mae darparu'r rhain yn gostus, ond mae angen inni ein sicrhau ein hunain nad yw canolfannau yng Nghymru dan anfantais gan fod gan nifer o'r darparwyr AB/AU dros y ffin yn Lloegr gyfleusterau da iawn.

Ar y cyfan mae Estyn yn barnu bod ansawdd y ddarpariaeth bresennol yn dda, ac mae'n adlewyrchu'n dda ar ddysgu'r myfyrwyr, ansawdd yr addysgu a'r adnoddau sydd ar gael yng Nghymru.

Gallai'r cam diweddar i gyflwyno cymhwyster Lefel 3 y Coleg Milfeddygaeth Brenhinol mewn Nyrsio Milfeddygol fod yn gyswllt defnyddiol gyda'r dyhead yng Nghymru i sefydlu Ysgol Filfeddygol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Hefyd, mae Coleg Sir Gâr yn lletya cylchdro o leoliadau i israddedigion ar ffermydd ar gyfer myfyrwyr y Coleg Milfeddygol Brenhinol sydd ar eu 5^{ed} flwyddyn er mwyn iddynt ddatblygu profiad o'r heriau gyda da byw ar ffermydd ac iechyd anifeiliaid.

Datblygiad arfaethedig y cysyniad Pentref Addysg @ Glynllifon – creu canolfan weithgarwch, gan nifer o bartneriaid, y maent i gyd yn cefnogi datblygiad amaethyddiaeth, arallgyfeirio gwledig a mentrau gwledig.

Mae Coleg Sir Gâr yn gweithio'n dda gyda Grŵp Llywio Diwydiant Llaeth Cymru a Dairy Co. Mae hon wedi bod yn fenter gynhyrchiol iawn gyda llawer o grwpiau ffermio llaeth yn rhannu dulliau arloesol ac arfer gorau i wella'r defnydd o ynni ar ffermydd, gan wella iechyd a'r mesurau atal clefydau mewn buchod godro, gan weithio ar lefel genedlaethol i wella'r defnydd o dir glas i gynhyrchu llaeth a chyfranogi mewn ymarfer i feincnodi'r diwydiant llaeth ledled Ewrop gyfan.

1.4 Cyfleoedd

Ceir dymuniad go iawn ymhlith arweinwyr colegau i fod yn rhan o agenda ehangach sy'n ymwneud â'r diwydiant amaethyddol ac mae hyn i'w weld yn sgîl rhai o'r syniadau a chysyniadau sy'n cael eu trafod yn y sector ar hyn o bryd. Er enghraifft:

- Y bwriad i archwilio'r posibilrwydd o gyfleuster Trosglwyddo Gwybodaeth/technoleg ym maes ynni adnewyddadwy
- Y bwriad i gyflwyno marchnad ffermwyr ar y campysau
- Cydweithio rhwng ffermwyr hŷn a newydd-ddyfodiaid ifanc i sicrhau olyniaeth a pharatoi ar gyfer ymuno â'r diwydiant ac/neu ymddeoliad. Mae'r cysyniad hwn o baru a mentora'n magu momentwm o ran y ffordd o feddwl yn y diwydiant cyfan ar hyn o bryd. Mae'r colegau mewn sefyllfa allweddol i ddylanwadu ar y fenter hon
- Canolfan ddatblygu genedlaethol ar gyfer cynhyrchu cig coch sy'n arddangos arfer gorau o ran cynhyrchu cynaliadwy, ymchwil gymhwysol, gwaith datblygu a throsglwyddo gwybodaeth ar hyd y cadwynau cyflenwi
- Y potensial i gampysau amaethyddol colegau AB ddod yn ganolbwyntiau ar gyfer strategaeth hyfforddiant a throsglwyddo gwybodaeth i Gymru-gyfan, gan fod â chysylltiadau agos â'r sector prifysgolion, y gwasanaethau cynghori a gynigir ar hyn o bryd gan Cyswllt Ffermio, a'r cyrff a gyllidir ag ardoll, yn anad dim Dairy Co. a Hybu Cig Cymru. Efallai y byddai darparwyr gwasanaethau cynghori yn y sector preifat yn dymuno ymgysylltu â'r colegau hefyd
- Ymestyn nifer y prentisiaethau ar Lefel 2, 3 ac o bosibl 4. Ceir ymrwymiad eglur i'r agenda hon tra bo cydnabyddiaeth hefyd i rai o'r heriau sy'n gysylltiedig ag ennyn ymgysylltiad diwydiant a ddominyddir gan ficrofusnesau
- Mae llawer o'r colegau'n darparu ar fwy nag un safle yn lleol ac yn rhanbarthol, gan felly gynyddu hygyrchedd a threiddiad daearyddol
- Datblygu darpariaeth yng nghyd-destun ac mewn cydweithrediad â'r diwydiant bwyd a diod gan gydnabod pwysigrwydd arloesedd ac effeithiolrwydd yn y gadwyn gyflenwi
- Craidd cryf o ddarpariaeth ar lefel addysg bellach mewn peirianeg amaethyddol/peirianeiddio ffermydd
- Mae un ganolfan wedi dod yn ganolfan hyfforddiant ac asesu BASIS yn ddiweddar.

1.5 Adnabod arfer da

Fe adnabuwyd llawer o elfennau o arfer da y gellid eu gwella a'u rhannu, er enghraifft:

- Gweithio gyda ffermydd lleol wedi'u contractio i ddarparu amrywiaeth o arbenigedd a phrofiad ymarferol
- Darparu cyrsiau proffesiynol y Cyngor Profi Medrusrwydd Cenedlaethol i ategu'r ddarpariaeth
- Defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur i oleuo cynnwys y cwricwlwm, yn enwedig ar gyfer prentisiaethau
- Cymorth ychwanegol i ddysgwyr o gefndir heblaw ffermio. Ymyriadau llwyddiannus i gynorthwyo dysgwyr i ymuno â'r diwydiant ffermio
- Ymrwymiad i gynyddu prentisiaethau a darparu profiad
- Cysylltedd â disgyblaethau eraill h.y. bwyd, arlwyo a lletygarwch, twristiaeth wledig a choedwigaeth
- Teithiau amaethyddol i wledydd eraill yn Ewrop a thu hwnt h.y. Seland Newydd
- Datblygiad graddol tuag at ganolfannau rhagoriaeth a dod yn ganolbwynt ar gyfer datblygu ac adfywio'r economi leol a rhanbarthol
- Mae'r bartneriaeth newydd rhwng y canolfannau AB a'r colegau amaethyddol blaenorol yn dod â phrofiad trosglwyddadwy newydd i ddatblygiad yn y dyfodol e.e. profiad o Bartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) llwyddiannus; Rhaglen Cyfnewid Gwybodaeth Arloesi a Thechnoleg (KITE)
- Datblygu darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg (Nid oedd hyn yn elfen benodol o amodau gorchwyl yr adolygiad hwn).

1.6 Ffermydd Coleg

Heb geisio cyfiawnhau ffermydd coleg nac yn wir ofyn am gymorth ychwanegol ar gyfer buddsoddi, rhaid cydnabod, yn hanesyddol, eu bod wedi chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o hyfforddi a datblygu myfyrwyr, yn ogystal â ffermwyr sefydledig.

Mae cysyniad y Ganolfan Datblygu Llaeth (DDC) yng Ngholeg Sir Gâr yn enghraifft wych o syniadau arloesol yn dod i'r amlwg ac yn cael eu harddangos yn ymarferol a'u lledaenu'n eang. Fe wnaeth y cysyniad o ganolfan â phresenoldeb mewn lleoliadau eraill gyflymu ei heffaith a sicrhau ei bod yn treiddio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae angen rhoi ystyriaeth o ddifrif i ailymweld â'r model hwn. Ar ben hynny, dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o gyflawni'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) newydd, roi anogaeth i ddatblygu'r cysyniad mewn sectorau eraill:

- cynhyrchu cig coch yn ogystal â llaeth

- llysiâu ar raddfa caeau / bwyd / cnydau crefftus
- bioynni
- ffermio yn yr ucheldir a'r bryniau
- coetiroedd a choedwigaeth.

1.7 Mwy o rôl i golegau Addysg Bellach

Gellid defnyddio ffermydd coleg a phrifysgol yng Nghymru i fodelu newidiadau i bolisi amaethyddol a chyflawni rôl dreialu yn y broses o weithredu offerynnau polisi newydd. Er enghraifft, mae rhai o'r ffermydd coleg yn gyfranogwyr mewn cynlluniau Glastir Sylfaenol a Glastir Uwch. Gallai'r canlyniadau anfwriadol yn sgîl gweithredu polisi newydd gael eu canfod trwy ddefnyddio'r ffermydd hyn fel arloeswyr, gan felly gael gwared ar rai o'r tensiynau sy'n dod i'r amlwg pan fo cynlluniau o'r fath yn cael eu hagor ar gyfer eu mabwysiadu'n fwy eang.

Byddai canolfannau datblygu wedi'u lleoli yn y colegau (a'r prifysgolion), a'r rheiny'n gysylltiedig â ffermydd arddangos a grwpiau trafod, yn gwneud cyfraniad pwysig at fabwysiadu technolegau newydd (gan y byddai ffermwyr wedi tystio i broses dreialu ar sail system ar ffermydd coleg) a'r fantais economaidd ddilynol o ganlyniad i fanteisio ar y technolegau. Ceir elfen o hyfforddiant mewn uwch-dechnoleg trwy drosglwyddo gwybodaeth ac mae colegau mewn sefyllfa dda i ddarparu.

Gallai'r colegau weithio gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (AVHLA) hefyd i arddangos statws iechyd uwch da byw a'r manteision o ran costau sy'n deillio o reoli iechyd yn dda. Mae angen dull cadarn o gasglu data sylfaenol a monitro data i arddangos y manteision o ran costau sy'n deillio o welliannau bob yn dipyn mewn iechyd a lles anifeiliaid. Gellid mabwysiadu ffermydd coleg i arddangos mantais cynlluniau amaeth-amgylcheddol amrywiol a galluogi sylfaen ar gyfer rhoi gwerth ar wasanaethau ecosystemau. Ymhelaethir ar y pwyntiau hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

1.8 Cwricwlwm y colegau

Yn ogystal â'r prosesau uno a'r cydweithio a grybwyllwyd yn gynharach, mae cryn dipyn o weithgarwch a datblygu'n digwydd yn y sector AB yng Nghymru yn ogystal â nifer o ddatblygiadau yn y cwricwlwm. Fe groesawodd y sector y pwyslais cryf ar fri cyfartal rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academiaidd yn dilyn yr Adolygiad Annibynnol o Gymwysterau ar gyfer Dysgwyr 14-19 oed a gyhoeddwyd yn 2012. Mae model cyllido newydd sy'n seiliedig ar raglenni'n cael ei gyflwyno yn 2014/15 a'i nod yw annog darparwyr i gydweithio a dileu cystadleuaeth ormodol.

1.9 Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu fframwaith cynllunio a chyllido ôl-16 newydd yn ddiweddar i sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau rhaglen ddysgu sy'n arwain at ganlyniad diffiniedig h.y. camu ymlaen i addysg bellach neu uwch neu gyflogaeth. Allbynnau'r rhaglen, felly, yw ennill y prif gymhwyster/gymwysterau, ennill sgiliau hanfodol diffiniedig a chyflawni cynnwys Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant (CLIF).

Mae'r rhai sy'n gyfrifol am gam dylunio'r strwythur cyrsiau newydd yn y colegau wedi tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu'r wybodaeth danategol trwy'r prif gymhwyster (e.e. Diploma BTEC Lefel 3 a'r sgiliau hanfodol 'craidd'). Byddai arwyddion cynnar yn awgrymu mai dim ond swm cyfyngedig o amser a gyllidir sydd ar gael i ddatblygu'r hyfforddiant cymhwysedd ymarferol ychwanegol sy'n hanfodol i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio.

Nid wyf fi mewn sefyllfa i farnu eto, ond hoffwn amlygu pryder bod datblygu sgiliau ymarferol o ran anifeiliaid, cnydau, yr amgylchedd, peiriannau a rhai sgiliau busnes yn un o gryfderau'r ddarpariaeth addysg bellach dros y degawdau diwethaf. Fe ymddengys nad yw'r rhain yn elfen allweddol o'r prif gymhwyster mwyach, gan ei fod yn canolbwyntio ar wybodaeth danategol.

Ni allaf orbwysleisio'r etheg gwaith sydd gan y rhan fwyaf o feibion a merched i ffermwyr; nac ychwaith botensial y newid o bynciau ysgol pan fyddant yn mynd i'r coleg i astudio amaethyddiaeth i danio sgiliau, doniau a photensial academaidd y myfyrwyr hyn. Mae arnynt angen cwricwlwm llawn, prysur a pherthnasol neu, fel arall, buan iawn y maent yn cael eu dadrithio.

Mae'r cymhwyster Lefel 3 wedi bod yn ddyhead allweddol i lawer sy'n dymuno ymuno â'r diwydiant, rhedeg busnes neu sy'n dymuno ymgymryd â dysgu ar lefel uwch yn y dyfodol. Mae'n hanfodol, felly, bod y diwydiant yn argyhoeddedig bod y rhaglenni ailstrwythuredig yn addas ar gyfer y diben. Mae'r cydbwysedd rhwng yr hyn a ysgogir gan fyd addysg a'r hyn sy'n berthnasol i'r diwydiant yn un anodd y mae'n rhaid ei daro.

Fy mhrif reswm dros rygnu ar y pwynt yw y dylai fod yn ddyhead bod unrhyw un sy'n meddwl am ymuno â'r diwydiant amaethyddiaeth a rhedeg busnes fel lleiafswm yn gorfod ennill y cymhwyster Lefel 3 priodol, ac a allai yn y dyfodol fod yn ardystiad posibl y cytunwyd arno ar gyfer ffermio.

Fel diwydiant dylem fod yn gweithio tuag at sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y sector wedi ennill o leiaf gymhwyster Lefel 2 neu gymhwyster cyfwerth.

O ystyried lefel yr ailstrwythuro a fu, ynghyd â'r datblygiadau adeiladol iawn o ran Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol, mae dulliau cydweithredol mwy cydlynol yn debygol o ddeillio ar gyfer cysyllteddau a datblygiad rhwng AB/AU fel rhan o'r

agenda ehangu cyfranogiad. Mae'n bwysig cydnabod na fydd gan yr holl bartneriaid AU yn y rhanbarthau yr arbenigedd pwnc perthnasol (Amaethyddiaeth / Menter Wledig) a bod angen i'r elfennau hyn gael eu cynnwys fel rhan o'r ffordd gyffredinol o feddwl yn y broses.

1.10 Prentisiaethau

Nid yw'r gyfradd derbyn ar gyfer prentisiaethau yn y sector ffermio wedi bod mor gadarnhaol ag mewn sectorau eraill. Mae wedi bod yn anodd casglu unrhyw resymau gwrthrychol i egluro pam mai felly y mae hi. Yn amlwg, mae'n anodd iawn i brentisiaethau weithredu mewn diwydiant a nodweddir gan gymaint o ficrofusnesau. Efallai nad yw meibion/merched i ffermwyr, sydd eisoes wedi ennill llawer o'r sgiliau, yn ystyried bod y cyfranogiad yn berthnasol. Efallai fod colegau mewn gwirionedd yn annog pobl ifanc i astudio'n llawn-amser yn lle cyfranogi mewn prentisiaeth. Gellid ystyried bod hwn yn fwiad anrhydeddus sy'n cydnabod y gallai fod yn well i unigolion gael ystod fwy o brofiadau dysgu 'oddi ar y fferm', yn hytrach na dim ond profi gwaith ac arferion busnes y fferm gartref y byddant yn dychwelyd iddi maes o law.

Gallai grŵp o ffermwyr gydweithio i gyfnewid personél i roi ystod o brofiadau i brentisiaid. Nid wyf yn ymwybodol o drefniant cyfnewid o'r fath ond rwy'n sicr yn ymwybodol o ffermwyr yn ffeirio cyfleoedd dysgu yn ystod blynyddoedd rhyngosod – arfer sydd i'w weld yn gweithio'n dda.

Mae'n ddiddorol nodi'r ymdrechion gan sectorau amrywiol i hybu prentisiaethau, e.e. moch a dofednod, gan nodi hefyd brentisiaeth arfaethedig mewn ffermio ucheldir yn Lloegr. Mae angen i golegau, y diwydiant a dysgwyr gydweithio i hybu ymhellach y broses o weithredu prentisiaethau, yn enwedig ar lefel AU. Mae hyn yn arbennig o berthnasol er mwyn inni allu denu newydd-ddyfodiaid nad ydynt o gefndir ffermio traddodiadol.

1.11 Hybu datblygiad

Prif amcan y sector AB gyda darpariaeth amaethyddol yng Nghymru yw darparu addysg bellach o ansawdd uchel. Gweithgaredd ychwanegol yw datblygu cyfleoedd ar gyfer datblygiad o AB i AU. Mae hyn yn gofyn partneriaeth gadarn gyda'r sector prifysgolion nid dim ond ar gyfer cymeradwyaeth academaidd ond hefyd i roi cymorth i ddatblygu arbenigedd yn y pwnc. Ni allaf orbwysleisio pwysigrwydd yr ail o'r rhain er mwyn inni sefydlu cydlynid ystyrllon a pharhaus mewn cysylltiadau rhwng AB/AU ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'n bwysig bod y datblygiad yn cael ei ddarparu'n llawn-amser, yn rhan-amser neu'n seiliedig ar waith.

Mae'r colegau yn y sector AB yn mynd mor bell ag archwilio ffyrdd o fanteisio ar eu dull amlddisgyblaethol trwy ehangu eu cenhadaeth amaethyddiaeth i wella

arloesedd, menter, perthnasoedd yn y gadwyn fwyd ac effeithlonrwydd mewn ardaloedd gwledig. Mae angen eu hannog yn frwd i symud ymlaen yn y cyfeiriad hwn, gan y gallent fod yn weithredwyr allweddol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae angen inni fod yn ymwybodol y gallai cael gwared ar y cap ar gyllid addysg uwch yn Lloegr ynghyd â chanlyniadau posibl yr Adolygiad Annibynnol o Gyllid Addysg Uwch a threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru arwain at densiwn mewn perthnasoedd rhwng AB/AU yn y dyfodol oherwydd cystadleuaeth am fyfyrwyr mewn hinsawdd recriwtio sy'n fwy seiliedig ar anghenion y farchnad.

1.12 Newidiadau i gyllid Ewropeaidd yn y dyfodol

Gallai argaeledd cyllid ar gyfer cymorth amaethyddol gan Ewrop (ac i raddau llai y cyrff a gyllidir â lefi) newid yn y 10 i 15 mlynedd nesaf. Gellid tybio, felly, y gallai fod gan y sector addysg bellach gyda darpariaeth amaethyddol ragolygon gwell o ran ei barhad na rhai o'r sefydliadau eraill sy'n gwasanaethu amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig gan fod yr olaf o'r rhain yn fwy dibynnol ar gyllid dros dro. Er y cydnabyddir bod cyfleoedd i astudio a thynnu ar arbenigedd o wledydd eraill yn y DU yn bodoli, maent hefyd yn amodol ar batrymau newidiol. Mae'n rhesymegol felly, achub y cyfle yn awr i ddatblygu a meithrin gallu a galluogrwydd yn ein Sector AB, mewn partneriaeth gyda'r sector AU, i ddarparu a chefnogi'r uchelgais sydd gennym ni i gyd ar gyfer ffermio, bwyd a'r economi wledig. Byddai hyn yn cryfhau'r rhagolygon ar gyfer parhad y strwythur fferm deuluol, sef asgwrn cefn y sector da byw yng Nghymru ac yn wir y Gymraeg a diwylliant Cymraeg yn yr ardaloedd gwledig.

Mae cryn werth a photensial yn gysylltiedig â datblygu'r colegau addysg bellach allweddol fel 'canolbwyntiau' mewn Strategaeth Addysg, Hyfforddiant a Throsoglwyddo Gwybodaeth i Gymru Gyfan. Byddai'r canolbwyntiau hyn yn darparu porth ar gyfer dangos a hwyluso'r dewis o weithgareddau sy'n gweddu orau i anghenion unigolion a busnesau. Er y cydnabyddir bod gweithgareddau lle mae'r colegau AB mewn cystadleuaeth, mae nifer wedi dangos y bydd cydweithio er mwyn ategu arbenigedd ei gilydd yn galluogi cyfleoedd newydd i dyfu.

1.13 Darpariaeth Leol, Ranbarthol a Chenedlaethol

Rhaid parchu annibyniaeth a chyfeiriad strategol y Colegau Addysg Bellach a'r Prifysgolion. Yn yr un modd, nid yw'n bosibl cofleidio dyhead pob sefydliad. Rwyf felly wedi gwneud rhai awgrymiadau ynghylch cyfeiriadau teithio yn y dyfodol yn seiliedig ar y dystiolaeth ar fentrau a chryfderau presennol.

Nodir bod y ddau ddarparwr yng Ngogledd Cymru (Coleg Cambria a Choleg Llandrillo-Menai) yn cydweithio'n dda, a chyda cysylltedd strategol Prifysgolion Aberystwyth-Bangor i ddarparu cryfder pynciol/ysgolheigaidd a chreu cyfleoedd

ehangach i ddysgwyr a chymorth i fusnesau. Gan gydweithio fel canolbwynt y Gogledd Orllewin a'r Gogledd Ddwyrain, maent yn darparu'r sail i drefniant cydlynol cryf ar gyfer Gogledd Cymru.

Yn Ne Orllewin Cymru, mae Coleg Sir Gâr a lleoliad Gelli Aur wedi dangos dull entrepreneuriaidd ac arloesol cryf iawn o weithio gyda sefydliadau i roi cymorth o ansawdd i o leiaf un o'r prif sectorau cynhyrchu yng Nghymru. Mae mewn sefyllfa dda i ddatblygu ymhellach gyda'i gysylltiad strwythurol newydd â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a chysylltedd posibl â'r strwythurau datblygu bwyd yng Nghymru.

Mae'r cryfderau perthynol, y gweithgareddau sydd wrthi'n datblygu a'r gweithgareddau cyflenwol yng nghyswllt Coleg Gwent, Pen-y-bont a Choleg Castell-nedd Port Talbot/Y Drenewydd (NPTC) yn llai cydlynol. Mae eu lleoliad, ymhlith poblogaeth fawr ac ardal ffermio dda iawn, yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu pellach. Efallai y bydd y Colegau hyn yn gallu manteisio ar amaethyddiaeth a garddwriaeth fwy arbenigol yng nghyd-destun bwyd crefftus i wasanaethu cynulleidfa darged wahanol iawn.

Y tri phrif ddarparwr ar gyfer cymwysterau lefel tri yw Coleg Cambria, Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Sir Gâr. Mae gan y colegau hyn hanes o fuddsoddi'n sylweddol yn natblygiad eu hadnoddau dysgu amaethyddol ynghyd â gweledigaeth ac uchelgais i gyfrannu'n sylweddol at ffyniant amaethyddiaeth yng Nghymru. O ran newid i greu canolbwyntiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni cylch gorchwyl y diffiniad ehangach o sgiliau a nodir uchod, dylent adnabod dulliau o weithio gyda Choleg Gwent ar ei gampws ym Mrynbuga. Hefyd, gallai campws Coleg Cambria yn Llaneurgain a champws Coleg Gwent ym Mrynbuga ganolbwyntio ar y sector bwyd crefftus yng Nghymru. Mae angen i'r pedwar coleg sicrhau cyflenwoldeb â'r ddarpariaeth ddysgu a'r adnoddau dysgu yng Ngholeg Castell-nedd Port Talbot (campws a fferm y Drenewydd) a Choleg Pen-y-bont.

Mae gan Ben-y-bont a Champws grŵp NPTC yn y Drenewydd y potensial i gyfrannu cryn dipyn yn y dyfodol. Byddwn yn awgrymu eu bod yn cydweithio i adnabod eu cryfder a chydlyniad ac i geisio ffyrdd o ategu darpariaeth y prif ddarparwyr eraill a chydweithredu'n llawn â hwy.

Argymhelliad 1:

Er bod y sectorau amrywiol yn weithredol o ran datblygu cyfleoedd dysgu seiliedig-ar-waith blaengar, mae'n siomedig nodi'r gyfradd dderbyn isel ar gyfer hyfforddiant prentisiaeth mewn amaethyddiaeth ar hyn o bryd. Byddwn yn argymhell bod LANTRA yn cynnull grŵp bach a hwnnw'n cynnwys unigolion allweddol o'r colegau, y cyrff yn y sector a gyllidir ag ardoll a ffermwyr-gyflogwyr i symud yr agenda yn ei blaen o ran prentisiaethau. Efallai y bydd y

colegau AB yn gallu adnabod a lledaenu'r arfer da sy'n bodoli mewn sectorau eraill yn hyn o beth.

Argymhelliad 2:

Rwy'n argymhell y dylai'r tri phrif ddarparwr cyrsiau Amaethyddiaeth Lefel 3, sef Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria a Choleg Sir Gâr gael anogaeth a chymorth i ddatblygu dull cydlynol, cydweithredol a chyflenwol o gefnogi amaethyddiaeth a llunio'u cynlluniau ar gyfer cydweithredu fel mater o flaenoriaeth. Yn hyn o beth dylent weithio i gynnwys colegau eraill.

2. Rhai nodweddion ar weithgareddau amaethyddol y sector prifysgolion ac asiantaethau allweddol eraill yng Nghymru

Mae Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth wedi ymrwymo'n ffurfiol i gynghrair strategol sy'n adeiladu ar bartneriaeth ymchwil a menter a gyllidir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac a sefydlwyd yn 2006.

Rhyngddynt, mae'r ddwy brifysgol wedi cael grantiau ymchwil mawr gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) a Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC). Fe arweiniodd y cydweithio hwn at gais ar y cyd i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) ym mis Tachwedd 2013, a oedd yn cynnwys 20% o geisiadau ymchwil y ddwy brifysgol.

Rhyngddynt, maent yn cyflawni gwaith y Ganolfan Ymchwil Integredig i'r Amgylchedd Gwledig a Chonsortium Newid Hinsawdd Cymru. Ar ben hynny, mae Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth yn lletya canolfan bioburo BEACON, menter ar y cyd rhwng Prifysgolion Bangor ac Abertawe.

Mae llwyfan mor gyfoethog o ran ymchwil ac ysgolheictod ym maes gwyddorau amaethyddol, biolegol ac amgylcheddol yn darparu ar gyfer rhagoriaeth, y dylai ac y mae'n rhaid i'n rhwydwaith colegau a'r diwydiant fanteisio arni. Mae'n bwysig ein bod yn sefydlu cydlynid a threfniadau cydweithio, yn hytrach na dibynnu ar hap a damwain ar gyfer cysyllteddau.

2.1 Prifysgol Aberystwyth

Ar ganol y 1990au fe unodd Coleg Amaethyddol Cymru â Sefydliad y Gwyddorau Gwledig yn Aberystwyth, gan felly gysylltu prif ddarparwyr addysg bellach ar lefel isradd a lefel gradd yng Nghymru. Fe arweiniodd prosesau uno pellach o fewn y brifysgol a chyda'r Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd at greu IBERS.

Mae'r brifysgol yn gyfranogwr a phartner gweithgar iawn mewn nifer o fentrau sy'n gysylltiedig â'r agenda Ffermio, Bwyd a Dwysáu Cynaliadwy. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- a) **Partneriaethau Hyfforddi Uwch** – ar gyfer Cynhyrchu Bwyd yn Gynaliadwy ac Effeithlon gan ddarparu cyrsiau MSc a PhD wedi'u teilwra mewn Amaethyddiaeth Fugeiliol trwy ddysgu o bell ar gyfer y diwydiant.
- b) **Partneriaid cyflawni**: IBERS, Coleg y Gwyddorau Naturiol, Prifysgol Bangor (PB) a'r Sefydliad Botaneg Amaethyddol Cenedlaethol (NIAB).
- c) **Farming Futures** – mae Farming Futures, a sefydlwyd yn 2011 gyda chyllid gan Waitrose a bwrdd llywio sy'n cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Curry o

Kirkharle, yn gweithredu i helpu diwydiant amaethyddiaeth y DU trwy feithrin partneriaethau prosiect ar gyfer ymchwil a datblygu ar draws cadwynau cyflenwi amaeth-amgylcheddol a helpu i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i arferion ffermio newydd sy'n deillio o allbynnau ymchwil. Y partneriaid ar hyn o bryd yw: IBERS; East Malling Research (EMR); Scotland's Rural University College (SRUC); y Sefydliad Botaneg Amaethyddol Cenedlaethol (NIAB); Prifysgol Harper Adams (HAU); a'r Agri Food and Biosciences Institute (AFBI) yng Ngogledd Iwerddon. Mae Farming Futures wedi bod yn brif ysgogydd o ran helpu i ddiffinio'r Strategaeth Technoleg Amaeth (Agri-Tech) sy'n werth £160 miliwn a datblygu partneriaethau ar gyfer ei chyflawni, yn enwedig y Ganolfan Gwybodeg a Chynaliadwyedd arfaethedig.

- d) **Llwyfan Ymchwil i'r Ucheldir Pwllpeiran** – A hithau wedi'i lansio ym mis Chwefror 2014, cafodd y ganolfan bwysig ar gyfer datblygu arferion cynhyrchu cynaliadwy yn yr ucheldir ei datblygu gyda chyllid gan BBSRC a Llywodraeth Cymru ynghyd â mewnbwn gan dîm ymchwil i'r ucheldir SRUC yn Kirkton.
- e) **Llwyfan Dwysáu Cynaliadwy (SIP) DEFRA** – Mae IBERS yn bartner ym mhob un o'r tri phrosiect dan Llwyfan Dwysáu Cynaliadwy DEFRA gan ddarparu gwasanaethau ymchwil ac allgymorth. Mae'r Brifysgol yn rhan o nifer o brosiectau sy'n uniongyrchol gymwys i amaethyddiaeth yng Nghymru er enghraifft:
- datblygu systemau seiliedig-ar-borthiant effeithlon ar gyfer anifeiliaid cnoi cil
 - gwerthuso dulliau cynhyrchu cig oen cynaliadwy
 - gwella ansawdd llaeth
 - datblygu gweiriau Ffestwloliwm dyfnwraidd perfformiad uchel i wella gwydnwch i sychder a lliniaru dŵr ffo.

Gallai'r rhain fod wedi cynnwys elfennau o gyfraniad gan y colegau AB pe bai porth cydweithredol syml yn bodoli i hwyluso cyfathrebu a chynllunio.

- f) **Prifysgol Aberystwyth – Arolwg o Fusnesau Fferm (FBS)** – Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn ymchwilio i incwm ffermydd yng Nghymru am bron i 80 mlynedd. Mae'r Arolwg yn coladu gwybodaeth ffisegol ac ariannol fanwl sy'n cwmpasu amrywiaeth o fathau o ffermydd ac yn cynnwys cyfanswm o 550 o ffermydd yng Nghymru a ddetholwyd ar hap. Cyhoeddir llyfryn blynyddol gyda nawdd gan Cyswllt Ffermio. Mae'r ddogfen hon yn dangos y newidynnau mewn perfformiad a'r cyfle i wella trwy gymharu neu "feincnodi" perfformiad ffermydd gan ei gwneud yn bosibl dadansoddi cryfderau a gwendidau busnesau fferm. Gallai Cyfarwyddwr yr Arolwg o Fusnesau Fferm fod yn gyfrwng pwysig iawn gyda'r rhwydwaith Colegau i nodi a llywio'r ffocws ar gyfer darpariaeth ddysgu i fyfyrwyr mewn rheolaeth ariannol a rheoli

busnes fferm. Byddai hefyd yn gyfraniad defnyddiol i ddatblygiad staff yn y colegau yn flynyddol.

2.2 Cyswllt Ffermio

Gwasanaeth integredig yw Cyswllt Ffermio, a ddarperir ledled Cymru ar gyfer teuluoedd ffermio, gyda dysgu wedi'i deilwra'n benodol, yn cael ei ddarparu trwy gyfuniad o gymorth grŵp ac un-i-un. Ei brif bwrpas yw helpu ffermwyr, coedwigwyr a'u teuluoedd i redeg eu busnesau'n fwy effeithlon ac i ddiogelu dyfodol eu ffermydd. Ei nod yw gweithio gyda busnesau fferm a choedwigaeth i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial gan ddarparu:

- Mynediad at yr wybodaeth a'r ymchwil ddiweddaraf am destunau sector-benodol a chyfleoedd i rannu arfer gorau a dysgu gan eraill, trwy nifer o fecanweithiau cymorth (Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth)
- Mynediad at gyrsiau hyfforddi cymeradwy neu achrededig i uwchsgilio unigolion, gwella arferion gweithio, helpu i gydymffurfio â deddfwriaeth ac annog busnesau i arallgyfeirio (Rhaglen Datblygu Sgiliau)
- Mentora wedi'i deilwra i helpu busnesau i gynllunio ar gyfer y dyfodol a gwella effeithlonrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys busnes, amgylcheddol, iechyd a lles anifeiliaid, arallgyfeirio ac arloesi (Rhaglen y Fferm Gyfan)
- Cyngor cyfrinachol sy'n gysylltiedig â thrawsgydymffurfio i helpu i wella rheolaeth gynaliadwy ac i ateb gofynion statudol (Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr).

2.3 Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)

Bwrdd ardoll statudol yw'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth. Fe'i cyllidir gan ffermwyr, tyfwyr ac eraill yn y gadwyn gyflenwi trwy ardoll statudol. Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn cefnogi cynhyrchwyr llaeth, garddwyr masnachol a thyfwyr grawnfwydydd a hadau olew a thatws ledled Prydain Fawr ac felly Cymru hefyd i ryw raddau. Gwasanaethir y diwydiannau Cig Eidion, Cig Oen a Chig Moch yng Nghymru gan Hybu Cig Cymru (HCC).

Mae nifer o asiantaethau, cyrff ardoll a darparwyr gwasanaethau addysg uwch a phellach ledled Cymru sy'n gwneud gwaith ardderchog ac a fyddai'n elwa o fod yn fwy "cydgysylltiedig" o safbwynt y cwsmer.

Argymhelliad 3

Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu mesurau i sicrhau mwy o integreiddio rhwng darparwyr gwasanaethau wrth ddyrannu cyllid. Mae'n bwysig datblygu llwyddiant mentrau presennol megis Cyswllt Ffermio a

meithrin mwy o allu yng Nghymru, gan ddefnyddio, lle y bo'n bosibl, yr adnoddau cyhoeddus sydd ar gael. Dylid annog aliniad â llwyfannau eraill yn y DU a mynediad at gyfleoedd cyllido o ffynonellau eraill lle bynnag y bo'n bosibl.

3. Darparwyr Addysg Bellach Amaethyddol a'r cyd-destun yng Nghymru

3.1 Agenda'r 21^{ain} ganrif ar gyfer amaethyddiaeth

Gan fod bwyd yn anghenraid sylfaenol, mae disgwyl i'r sector bwyd amaethyddol fod yn fwy cadarn na sectorau eraill "particularly in a time of crisis" fel a nodir yn yr adroddiad 'The State of Food and Agriculture' 2009. Fe wnaed cynnydd da o ran datblygu amaethyddiaeth yn y blynyddoedd ar ôl y rhyfeloedd. Erbyn diwedd y ganrif ddiwethaf roedd y ffocws wedi symud i ffwrdd oddi wrth gynhyrchu ac yn fwy tuag at ansawdd bwyd, diogelwch bwyd a chynnal bioamrywiaeth. Mae'r modd y buddsoddi mewn ymchwil amaethyddol wedi symud i ffwrdd oddi wrth gynhyrchu neu amaethyddiaeth gymhwysol, ac mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod cyfraddau cynhyrchu amaethyddol wedi gwastatau oherwydd y diffyg buddsoddi mewn ymchwil i gynhyrchu amaethyddol. Derbynnir yn gyffredinol mai 15 – 20 mlynedd yw'r raddfa amser rhwng ymchwil a'i heffaith ar gynhyrchiant.

3.2 Dyfodol bwyd a ffermio

Roedd cyhoeddi "Foresight the Future of Food and Farming" gan Lywodraeth y DU yn 2011, yn seiliedig ar sail dystiolaeth fyd-eang, yn garreg filltir arwyddocaol yn ailymddangosiad yr agenda amaethyddol. Roedd yn cyfleu achos cymhellol dros weithredu ar frys i sicrhau'r system fwyd fyd-eang ac mae'n cyflwyno'r heriau o ran "meeting the needs of a growing world population whilst critical resources such as water, energy and land become increasingly scarce". Fe amlygodd yr angen i systemau bwyd ddod yn fwy cynaliadwy gan addasu i'r newid yn yr hinsawdd a chyfrannu'n sylweddol at fesurau i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Ar ben hynny, fe ysgogodd yr adroddiad ymwybyddiaeth fyd-eang a gwaith i lunio polisiau ac fe sefydlodd fframwaith pwysig y mae angen inni i gyd ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer y ffordd ymlaen.

Mae adroddiadau diweddar eraill yn darparu cefndir technegol pellach i brosesau llunio polisiau'r Undeb Ewropeaidd sy'n gosod yr agenda ar gyfer gweithredu ar lefel aelod-wladwriaethau.

3.3 Strategaeth ar gyfer bwyd, diod ac amaethyddiaeth yng Nghymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 yn gynharach eleni, yn dilyn ymgynghori â'r sector cyfan ac mae'r cynllun gweithredu hwn yn gosod uchelgais eglur ar gyfer Cymru yn y sector hwn. Er bod y ffocws ar weithgareddau y tu hwnt i gât y fferm, mae hyfforddiant a datblygu sgiliau'n un o'r tair thema drosfwaol, lle rhoddir pwyslais ar adeiladu map

cynhwysfawr o'r ystod o wasanaethau hyfforddi sydd ar gael ac adnabod a llenwi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Mae dwy o'r saith blaenoriaeth yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd ac effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi sy'n faterion sy'n treiddio'n ôl i fyny trwy gât y fferm.

3.4 Datblygu strategaeth ar gyfer technolegau amaethyddol ar lefel y DU

Nod y Strategaeth Technoleg Amaeth (Agri-Tech) (2013) a arweinir gan y diwydiant, mewn partneriaeth gyda'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yw datgloi buddsoddiad hirdymor er mwyn cyflymu'r broses o arloesi gan fusnesau bwyd a ffermio yn y DU i sbarduno twf trwy'r marchnadoedd byd-eang sy'n dod i'r amlwg. Trwy'r bartneriaeth hon, dymuniad y Llywodraeth yw "to realise its ambitions for UK farming to become more competitive, more productive, more resilient to plant and animal diseases and better at protecting the natural environment". Ar ben hynny, trwy'r Strategaeth Technoleg Amaeth (Agri-Tech), mae'r Llywodraeth yn dymuno i'r DU fod ar flaen y gad yn fyd-eang ym maes dwysáu cynaliadwy boed o ran tanategu gwyddoniaeth, arferion ffermio effeithlon neu lefel yr arloesi yn y gadwyn gyflenwi.

Mae'r strategaeth wedi nodi problemau olyniaeth am fod gweithwyr proffesiynol profiadol a chanddynt sgiliau lefel uwch hynod arbenigol yn nesáu at oedran ymddeol.

Mae'n ailddatgan y ffaith bod gweithwyr yn y sector amaethyddol yn aml yn meddu ar sgiliau uchel iawn ond heb gymwysterau a gydnabyddir yn ffurfiol. Mae hyn yn wir am 16% o'r sector. Mae gan tuag un rhan o bump o'r gweithlu gymhwyster ar Lefel 4 neu uwch, o'i gymharu â 40% mewn sectorau eraill yn yr economi.

Mae'r adroddiad yn rhagweld cynnydd yn y galw am bobl mewn galwedigaethau sgil uchel sy'n awgrymu y bydd mwy o ofyn am sgiliau arwain, rheoli, cyllid a marchnata. Mae cyflogwyr yn y sector yn dweud ei bod yn anodd dod o hyd i recriwtiaid â'r sgiliau priodol o'r gyfundrefn addysg bresennol.

Mae adolygiad Lantra o ddarpariaeth 14-19 ar gyfer sector y tir a'r amgylchedd (2013) wedi nodi bod sgiliau technegol, ymarferol a swydd-benodol yn arbennig o bwysig i unigolion a chyflogwyr.

3.5 Y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol

Y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) yw'r sylfaenydd hyfforddiant ac ymchwil academaidd mwyaf blaenllaw yn y DU yn y gwyddorau bywyd anghlinigol mewn prifysgolion, sefydliadau a chanolfannau. Yn ei gynllun strategol diweddaedig, "The Age of Biosciences" 2013/2014, amaethyddiaeth a diogelwch bwyd yw ei brif flaenoriaeth ymchwil strategol. Prifysgol Aberystwyth, ac IBERS yn enwedig, yw un o'r wyth sefydliad ledled y DU sy'n cael cyllid strategol gan BBSRS, a'r unig un yng Nghymru. Mae ffocws eang y cyllid strategol hwn ar

ddehongli gwyddorau biolegol, amgylcheddol a gwledig. Mae hwn yn adnodd o safon fyd-eang y mae angen inni fanteisio arno i gwrdd ag uchelgais y diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru. Am y rheswm hwn rwyf wedi archwilio yn fy adolygiad sut y gall y sector colegau wella'i gysylltiadau a'i ryngweithiadau gyda Phrifysgol Aberystwyth.

3.6 Strategaeth Diwydiant Ffermio Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth ar gyfer amaethyddiaeth. Mae'n bwysig bod datganiadau eglur yn bodoli yn y strategaeth hon o ran datblygu pobl i ddiwallu anghenion y diwydiant.

3.7 Hwyluso'r Drefn

Mae'r adroddiad Hwyluso'r Drefn 'Adroddiad o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar well rheoleiddio ym maes Ffermio' (2011) yn ein hatgoffa'n benodol am y gystadleuaeth o ran yr amser a dreulir gan ffermwyr yn cydymffurfio â rheoliadau, ar draul yr amser y maent yn ei dreulio ar weithgareddau ffermio.

Mae argymhellion allweddol o'r adroddiad sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn fel a ganlyn:

- Dylid gwneud yn siŵr bod mwy o hyfforddiant ar gael i filfeddygon preifat ac archwilwyr Gwarant Fferm fel eu bod yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt, a'u bod yn hyderus i gyfathrebu arferion gorau ar ofynion rheoleiddio (trawsgydymffurfio, Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da, iechyd anifeiliaid ac ati)
- Pan fo'r rheoliadau'n caniatáu hynny, rhaid i Lywodraeth Cymru arwain partneriaid i ddatblygu cydnabyddiaeth a enillir fel ffactor allweddol wrth benderfynu pa ffermydd i'w harchwilio. Ni ddylai'r ffermwyr hynny sydd â hanes o gydymffurfiaeth lawn ac sy'n manteisio ar yr hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael iddynt gael eu harchwilio cyn amled â ffermwyr llai diwyd
- Dylid annog y genhedlaeth nesaf trwy annog y Llywodraeth i weithio'n agosach gyda Cholegau Amaethyddol a gwella cynlluniau cymorth e.e. yr FLS, Cyswllt Ffermio a YESS. Dylid ystyried defnyddio'r cynllun mentora o dan YESS yn ehangach fel model i annog twf busnesau.

Mae'r colegau'n ganolfannau amlwg i ddatblygu ac arddangos arfer gorau o ran pob mater sy'n gysylltiedig â chydymffurfio a dylid eu defnyddio fel offeryn treialu ar gyfer rheoliadau a threfniadau arolygu newydd. Mae hyn hefyd yn dangos y potensial sy'n bodoli ar gyfer rôl gynyddol a mwy parhaus i'r colegau o ran cyflawni agenda gyffredin Llywodraeth Cymru a, gobeithio, y diwydiant.

3.8 Fforwm Ucheldir Cymru

Roedd adroddiad Fforwm Ucheldir Cymru (2012) yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, dan Golofn 2 yn y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf: “ddatblygu hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli i hybu gweithgarwch busnes entrepreneuriaidd, gan roi pwyslais arbennig ar ddarparu'r cymorth hwn i bobl ifanc.” Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd ymgysylltu â phobl ifanc i yrru'r sector allweddol hwn yn y diwydiant yn ei flaen.

Roedd yr adroddiad hefyd yn argymhell “Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i ddatblygu Pwllpeiran yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer ymchwil gymhwysol, arloesi a throsglwyddo technoleg yn yr Ucheldiroedd .”

Dylid llongyfarch Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol am weithio gyda Phrifysgol Aberystwyth, ac IBERS yn benodol, i gyllido a datblygu Pwllpeiran.

Mae'n hanfodol ein bod yn sefydlu cyswllt ffurfiol rhwng y llwyfan ymchwil hwn a'r darparwyr AB amaethyddol yng Nghymru er mwyn lledaenu canlyniadau'n gyflym i ddefnyddwyr terfynol. Mae hefyd yn bwysig bod y defnyddwyr terfynol wedyn yn achub y cyfle amhrisiadwy a gyflwynir iddynt.

3.9 Cyfoeth Naturiol Cymru

Ym mis Hydref 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn 'Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy' fel rhagarweiniad i Fil yr Amgylchedd a oedd wrthi'n datblygu, lle pennwyd cyfeiriad teithio perthnasol, uchelgeisiol a chadarnhaol. Mae'n amlwg bod amaethyddiaeth yn elfen allweddol o unrhyw waith llwyddiannus i ddatblygu defnydd o fecanweithiau'r farchnad i dalu am wasanaethau ecosystemau.

O ystyried bod ffermwyr yn rheoli'r rhan fwyaf o'r dalgylch dŵr mewndirol hwn ac adnoddau naturiol eraill, gallwn ddod i'r casgliad bod gan y colegau rôl allweddol o ran gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i weithredu ei bolisiau.

Mae'r rhwydwaith colegau wedi'i ddisbarthu'n dda ar draws Cymru ac mae darpar fyfyrwyr a ffermwyr, myfyrwyr a ffermwyr presennol a chyn-fyfyrwyr a ffermwyr yn cael eu denu'n naturiol at eu coleg lleol. Byddai gweithio gyda cholegau'n galluogi CNC i ddylanwadu ar gynnwys y cwricwlwm ac felly ar brofiad cynnar myfyrwyr, a sefydlu partneriaeth barhaus gyda ffermwyr y dyfodol.

Yn fy marn i, rhaid i asiantaethau gydweithio a chysylltu â cholegau ac optimeiddio'r hyn y mae pobl ifanc a dysgwyr gydol oes parhaus yn dod i gysylltiad ag ef.

3.10 Cadernid ffermio yng Nghymru

Mae'r adolygiad o 'Gadernid Ffermio yng Nghymru' gan Kevin Roberts (2014) yn amlygu'r angen i ddatblygu ymhellach y gwasanaethau ymestyn, a rôl y ffermwr ym mhroses benderfynu'r flaenoriaeth ymchwil. Mae'n canolbwyntio'n arbennig ar yr angen yn y sector cig coch yng Nghymru i ddatblygu sgiliau a chynyddu eu defnydd o wybodaeth a thechnolegau newydd. Mae'r adolygiad hwn o gadernid hefyd yn amlygu'r angen i ddatblygu offer asesu a lliniaru risgiau ar gyfer cynllunio a rheoli ffermydd, sy'n gyfiawnhad pellach ac eglur dros fwy o hyfforddiant busnes yn y diwydiant.

3.11 Adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru

Ym mis Hydref 2013 cyhoeddodd Arsyllfa Wledig Cymru (AWC) adroddiad "Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesedd". Cafodd hwn ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth ac arloesedd â pherthnasedd i Gynllun Datblygu Gwledig Cymru a'r Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd a oedd wrthi'n datblygu ar y pryd, ac roedd yn tynnu ar ystod eang o ffynonellau data, ac yn cynnwys cyfathrebu â rhanddeiliaid a gweithdai. Un argymhelliad perthnasol o'r ffynhonnell hon yw y "dylai gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr ychwanegu gwerth at y Cynllun Datblygu Gwledig drwy gynorthwyo mwy o gydweithrediad, cydweithio a chydlynu ar draws y rhaglen a thu hwnt iddi". Ar ben hynny, mae'n ymhelaethu ar hyn â datganiad ategol: "Mae'n angenrheidiol integreiddio ymhellach elfennau darniog y dulliau cyngor a chyflawni. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i lwyfannau cyfathrebu effeithiol a chydweithio rhwng gweithredwyr allweddol, megis Cyswllt Ffermio, y Cyrff Ardoll a cholegau Addysg Uwch / Bellach."

Ar ben hynny, daw i'r casgliad bod trosglwyddo / cyfnewid gwybodaeth yn fwyaf effeithiol drwy ddulliau gweledol a chymhwysol. Mae'n argymhell y dylid defnyddio buddsoddiad y Cynllun Datblygu Gwledig i gynorthwyo'r rhwydweithiau presennol o ffermydd arddangos a datblygu ledled Cymru ac ehangu arnynt. Gallai'r rhain gael eu rhedeg fel partneriaeth gyda chanolfannau addysg bellach ac uwch, ffermydd y sector preifat a Cyswllt Ffermio, a fydd yn cyd-fynd â strwythur grŵp gweithredol y Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd ac yn cysylltu â blaenoriaethau ymchwil Horizon 2020. Mae hyn yn amlwg yn cyfeirio ein ffordd o feddwl tuag at fwy o rôl i golegau. Fodd bynnag, er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i hyn gael ei gysylltu â strwythur cydlynol ehangach.

Mae'n werth rhoi ystyriaeth bellach i ddau argymhelliad o'r ffynhonnell hon yng nghyd-destun yr adolygiad hwn:

- a) "Mae ymddiriedaeth yn hanfodol ar gyfer proses effeithiol o gyfnewid gwybodaeth ac arloesedd; sicrhau ei bod yno o'r dechrau ac yn parhau i gael ei meithrin drwyddi draw". Mae'n ychwanegu: "Mae meithrin ymddiriedaeth a

chyfalaf cymdeithasol yn cymryd amser ac mae angen sicrhau parhad. Lle bynnag y bo modd, defnyddio gweithredwyr lleol sy'n adnabyddus ac wedi'u cysylltu â'r gynulleidfa darged. Yn yr un modd, mae hygrededd a chyfreithlondeb canfyddedig y ffynonellau o wybodaeth a'r gweithredwyr dan sylw yn hanfodol i'w llwyddiant". Mae hyn yn rhoi cyfle i'r colegau ei achub ond mae hefyd yn her fawr yn yr ystyr bod "hygrededd canfyddedig" a chyfreithlondeb ffynonellau gwybodaeth yn faterion allweddol. Mae dull o'r fath yn cynnig cyfle sylweddol i'r colegau o ran datblygu staff a'u harfogi â gwybodaeth am y dechnoleg ddiweddaraf a hybu eu gallu i weithio gyda ffermwyr a grwpiau lleol i ddarparu datrysiadau arloesol priodol. Byddai perthnasoedd gweithio agosach gyda phrifysgol sy'n arbenigo mewn pwnc penodol a chyrrff a gyllidir ag ardoll yn mynd i'r afael â hyn.

- b) Mae'r Adroddiad yn gwneud sylw perthnasol arall, sef bod "gweithgareddau gyda'r sector gwledig yn aml yn cael eu diffinio gan eu swyddogaethau amryfal a'u potensial cysylltiedig i gysylltu ar draws agendâu ar gyfer lles a chydlyniant cymdeithasol, a ffyniant economaidd ac amgylcheddol". Mae hyn yn ychwanegu cyfiawnhad pellach dros ddefnyddio'r rhwydwaith o golegau mewn ffordd gydlynol. Mae'r rhai sy'n gweithio, yn byw ac wedi'u lleoli gyda'r broblem neu'r her yn fwy tebygol o ddod o hyd i'r datrysiadau priodol. Mae'r syniad hwn o ganolbwyntiau cenedlaethol a lleol yn cydweithio i ddatblygu pobl, gan feithrin ymddiriedaeth, hyder a chreu cyfleoedd gwell o ran addysg a datblygiad proffesiynol yn y sector amaethyddol yn allweddol i lwyddiant y diwydiant yn y dyfodol.

3.12 Amaethyddiaeth yng Nghymru: Denu Cenhedlaeth Newydd o Ffermwyr: Adolygiad Malcolm Thomas

Yn ei adolygiad o'r genhedlaeth newydd o ffermwyr yng Nghymru, mae Thomas yn tynnu sylw at nifer o faterion perthnasol. Mae'r adroddiad yn nodi bod angen cyfleoedd gwell i ffermwyr ac ymarferwyr gyfranogi mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol, a chofnodi'r cyfranogiad hwnnw'n ffurfiol. Mae hefyd yn cydnabod ei bod yn bosibl bod cynlluniau presennol yn darparu'n ddigonol ar gyfer rhai sectorau. Mae'r adroddiad yn argymhell sefydlu llwyfan cyfleoedd ar y cyd gyda'r bwriad o baru darpar ymgeiswyr ifanc a newydd-ddyfodiaid â ffermwyr sydd o bosibl yn dymuno paratoi ar gyfer ymddeol. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad pwysig hwn a allai wneud cyfraniad mawr o ran cyflwyno gwaed newydd i'r diwydiant.

Mae'r adroddiad hefyd yn argymhell y canlynol:

- "Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda LANTRA a HCC er mwyn datblygu cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus achrededig ar gyfer y sector cig coch

yng Nghymru”

- Mae'n amlygu'r angen am fwy o hyblygrwydd a hygyrchedd i alluogi dysgwyr sydd eisoes mewn cyflogaeth i gael mynediad at gymwysterau addysg uwch barhaus ac mae'n argymhell y canlynol: “Dylai sefydliadau academiaidd uwch adolygu eu darpariaeth bresennol i sicrhau bod llwybr hyblyg a hygyrch tuag at gymwysterau ar gael”
- Gan ganolbwyntio'n benodol ar YESS, mae'r adroddiad yn argymhell, yn ychwanegol at y sgiliau presennol, y dylai'r holl ymgeiswyr llwyddiannus yn y dyfodol fynychu modiwlau gorfodol mewn cynllunio olyniaeth a rheoli ac arwain busnes.

3.13 Adolygiad Future of Farming

Comisiynwyd yr adolygiad hwn gan DEFRA ac mae'n debyg i'r adroddiadau a nodir uchod sy'n ymwneud yn benodol â Chymru. Roedd yr adolygiad yn ceisio safbwyntiau am lwybrau i mewn i'r sector, ac ar addysg a sgiliau. Mae'r adolygiad yn cyfeirio at Arolwg o Fusnesau Fferm DEFRA (2013) a awgrymodd fod cyswllt llac rhwng cynnydd yn oedran ffermwyr a llai a llai o barodrwydd i barhau i gael hyfforddiant a allai gefnogi cynhyrchiant ac arloesedd. O ganlyniad, mae'n cefnogi'r farn o'm cyfweiliadau i fy hun, sef bod ein cenhedlaeth ifanc o newydd-ddyfodiaid yn fwy parod i oddef risgiau, yn magu mwy o barodrwydd i gael hyfforddiant ac yn fwy agored i fabwysiadu technolegau newydd a syniadau newydd.

3.14 Adolygiad o Cyswllt Ffermio

Mae adolygiad Gareth Williams o Cyswllt Ffermio a gyhoeddwyd yn 2014 yn gwneud nifer o argymhellion clir o ran yr hyn y dylai'r rhaglen Cyswllt Ffermio ei gynnwys yn y dyfodol, gan gynnwys ehangu'r meini prawf cymhwystra er mwyn galluogi mwy o bobl i gael mynediad at y gwasanaeth. Byddai hyn yn cynnwys gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth a chymorthdaledig, gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Sgiliau. Mae parhad y brand “Cyswllt Ffermio” a'i wasanaethau yn hanfodol i'r diwydiant, trwy sicrhau ei fod yn ymateb i anghenion y farchnad ac yn gallu rhoi cymorth i fusnesau fferm a choedwigaeth trwy'r cyfnodau presennol o newid. Mae trosglwyddo gwybodaeth ac arloesedd yn hollbwysig o ran helpu i broffesiynoli'r diwydiant amaethyddiaeth ymhellach, gan sefydlu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus a ffocws gwell ar ffermio fel busnes. Mae'n hanfodol bod ffermwyr, coedwigwyr a busnesau bwyd yn cofleidio'r cyfleoedd y bydd y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd yn gyffredinol, a Cyswllt Ffermio yn benodol, yn eu darparu.

3.15 Trafodaethau gyda rhanddeiliaid

Yn ystod y broses ymgynghori, rwyf wedi gwerthfawrogi'r safbwyntiau a syniadau adeiladol ac addysgiadol a rannwyd ymhlith y rhanddeiliaid. Roedd y rhain yn adlewyrchu dymuniad brwd a gwirioneddol ein bod ni i gyd yn achub y cyfle a

ddarperir gan yr adolygiad i weithio tuag at broses addysg amaethyddol well yng Nghymru a allai, ymhen amser, gael ei hystyried yn enghraifft o ragoriaeth.

Mae'r diwydiant yn llai clir ynghylch natur flaengar a chydlynol bresennol cymwysterau; mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r teitlau newydd a roddwyd i gymwysterau. Er, roedd yn gefnogol iawn i'r angen i fanteisio ar ddull sy'n seiliedig ar ddysgu parhaus fel bod rhaglenni dysgu llawn-amser, rhan-amser a seiliedig-ar-waith yn cyrraedd eu nodau terfynol. Roedd y diwydiant hefyd o'r farn bod angen i ddarparwyr dysgu fod yn fwy hyblyg o ran strwythur eu cwricwlwm a'r modd y caiff ei ddarparu, ac y dylai dysgu trwy brofiad ac achredu hynny ar gyfer cymwysterau parhaus fod yn nodwedd gref ar y broses. Daeth barn i'r amlwg hefyd ynglŷn â chyfle wedi'i golli ar gyfer dysgu estynedig a chyfeiriwyd at brofiad ymgynghorwyr sy'n gweithio gyda ffermwyr i ddatblygu cynlluniau busnes, er enghraifft YESS neu grwpiau eraill. Roedd teimlad y gallai cryn dipyn o ddysgu a dealltwriaeth fod wedi cael eu datblygu trwy ail-saernio'r broses. Ar ben hynny, gellid bod wedi defnyddio'r profiad i alluogi cyfranogwyr sy'n ffermwyr i ennill cyflawniadau dysgu â chredydau ac/neu bwytiau DPP.

Daeth barn i'r amlwg o'r diwydiant bod y ddarpariaeth bresennol yn cael ei llywio gan fyd addysg ac nad yw'n ymddangos bod y diwydiant yn gallu arfer dylanwad ystyrlon. Rwy'n nodi bod hyn yn berthnasol i'r sector AB ac AU yn hytrach na'r ffocws ar hyfforddiant a sgiliau gan Lantra.

Ar y cyfan, ceir ymateb cadarnhaol i drafodaeth a dymuniad gwirioneddol i ddatblygu a chyfranogi mewn diwydiant ffermio a gaiff ei ystyried yn broffesiynol. Mae'n bosibl bod y farn hon yn cael ei choleddu'n fwy ymhlith yr aelodau iau o'n diwydiant, a'r rhai sydd eisoes yn meddu ar gymhwyster presennol, sydd o bosibl yn gwerthfawrogi ac yn ei chael yn haws rhoi gwerth ar ddatblygiad proffesiynol. Yn anecdotaidd, ceir barn a goleddir ers tro bod pobl ifanc yn fwy tebygol o, a pharod i, gychwyn a cheisio gyrfa barhaus mewn diwydiant yr ystyrir ei fod yn wirioneddol ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol.

Roedd cefnogaeth gref i ddatblygu ymhellach y rhwydwaith o golegau a phrifysgolion sy'n gwasanaethu addysg amaethyddol. Roedd llawer o sylwadau'n ymwneud â'u lleoliad gwledig, eu dealltwriaeth am fusnes fferm, tynfa naturiol i bobl ifanc o gefn gwlad a dymuniad a pharodrwydd cyn-fyfyrrwyr i ddychwelyd i achlysuron a digwyddiadau datblygu. Mae'r cynefindra canfyddedig hwn â phobl neu leoliad yn bwysig ac yn cryfhau ymhellach yr achos dros adeiladu ar leoliad y colegau i sefydlu canolbwytiau amlswyddogaethol a fydd yn cydweithio gydag amryw bartïon ac asiantaethau â buddiant.

Mae nifer yr adolygiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac eraill yn dangos ac yn cydnabod pwysigrwydd amaethyddiaeth yn ei hystyr ehangaf a'r dymuniad dilynol i sicrhau bod polisïau'n briodol i ddarparu ymchwil gymhwysol, gweithgarwch cyfnewid gwybodaeth, addysg a datblygiad proffesiynol.

Rwy'n cael fy arwain i'r casgliad bod y colegau a phrifysgolion yng Nghymru y mae ganddynt elfen sy'n ymwneud â diwydiannau'r tir yn eu cenhadaeth yn hollbwysig i ffyniant y diwydiant amaethyddol a diwydiannau gwledig eraill yng Nghymru yn y dyfodol.

O ystyried yr heriau sy'n wynebu dynoliaeth i fwydo poblogaeth o 9 biliwn yn y dyfodol, mae'n briodol gofyn y cwestiynau canlynol:

- A yw addysg amaethyddiaeth a bwyd yn rhy bwysig i gael eu gadael i rymoedd y farchnad ac i fod yn ddarostyngedig i'r un fframwaith addysg a chyllido gyffredin ag sy'n bodoli ar draws sectorau eraill?
- A ddylid ystyried rhyw fath o ymyrraeth neu gymorth ychwanegol?

Bu cryn dipyn o sôn yn y cyfnod diweddar iawn am ymchwil, datblygu, ymestyn a chysyllteddau â sefydliadau addysg. Yn wir, yn y farn a'r safbwyntiau sy'n cael eu mynegi am gyfnewid gwybodaeth ac arloesedd, rwy'n ei chael yn anodd canfod unrhyw ffiniau cysyniadol rhwng cyfnewid gwybodaeth, hyfforddiant/addysg uwch mewn technoleg a busnes ac arloesedd. Ymddengys fod ffynonellau cyllid yn gosod ffiniau artiffisial sy'n arwain at ddull sy'n dameidiog heb fod angen, ar draul y defnyddiwr terfynol.

Mae'r cyfeiriadau at astudiaethau diweddar yn pwysleisio bod cysylltiad agos iawn rhwng addysg uwch, addysg bellach, ymchwil a'i datblygiad i greu technoleg a'r gallu i drosglwyddo hyn i'r defnyddiwr terfynol.

Ar ben hynny, ymddengys fod angen sicrhau cysylltedd strwythurol rhwng y sefydliadau hynny sy'n rhan o'r broses ddarparu hon a deialog gwell rhwng y darparwyr a'r defnyddwyr terfynol yn y diwydiant. Mae angen cydlynid, cyflenwoldeb, gallu, galluogrwydd a chydweithrediad i ddatblygu'r ddarpariaeth yng Nghymru.

3.16 Colegau Addysg Bellach a'r agenda datblygu ac ymestyn ymchwil

Mae Pollock (2013) yn disgrifio'n eglur rai o'r heriau a achosir gan y ffaith nad oes gennym yn y DU gyfundrefn ymchwil, datblygu, ymestyn ac addysg gydgysylltiedig. Mae'n nodi bod angen i amaethyddiaeth edrych tua'r dyfodol a datblygu fframwaith ar gyfer ymchwil a datblygu sy'n adnabod y bylchau allweddol o ran gwybodaeth a sgiliau sy'n debygol o leihau cystadleurwydd ymhen 20 neu 30 mlynedd. Ar ben hynny, wrth drafod yr angen i sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau newydd yn cyrraedd y defnyddiwr terfynol yn fwy effeithiol ac mewn ffordd fwy addysgiadol, mae'n nodi, er y gall fod adnoddau i sicrhau bod gwybodaeth newydd yn cael ei chreu a'i throsglwyddo o ran proffidioldeb, bod ganddo bryder, sef "no-one is considering how to implement best practice in terms of balancing production gains against impacts on

ecosystem service provision, or even balancing the costs and benefits of alternative land use systems.”

Mae ffermio yng Nghymru yn seiliedig yn bennaf ar gynhyrchu da byw, llaeth, cig eidion a defaid. Yn ddiweddar fe neilltuodd yr International Journal of Animal Bioscience ‘Animal’ (Awst 2014) rifyn cyfan i heriau integreiddio anifeiliaid fferm mewn agroecosystemau, ac yn arbennig i ddylunio a datblygu elfennau arloesol, addasiadau a systemau ffermio cadarn.

Mae Dumont et.al. (2013) yn nodi pum egwyddor allweddol i ymestyn syniadau ecolegol i mewn i systemau cynhyrchu anifeiliaid:

- addasu arferion rheoli gan amcanu at wella iechyd anifeiliaid
- lleihau'r mewnbynnau y mae eu hangen ar gyfer cynhyrchu
- lleihau llygredd trwy optimeiddio gweithrediad metabolaidd systemau ffermio
- gwella amrywiaeth mewn systemau cynhyrchu anifeiliaid i gryfhau eu cadernid
- gwarchod amrywiaeth fiolegol mewn agroecosystemau trwy addasu arferion rheoli.

Gallai'r colegau gyflawni rôl allweddol o ran datblygu ac arddangos syniadau gwyddonol cymhwysol arloesol sy'n dod i'r amlwg mewn systemau fferm cynaliadwy holistaidd. Gallai'r adnoddau sydd ar gael yn IBERS a'r colegau ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill ddarparu llwyfan ardderchog ar gyfer symud ein diwydiant yn ei flaen.

Mae Dumont et. al. (2013) yn dod i'r casgliad mai llwyddiant cyfyngedig y mae gwasanaethau ymchwil ac ymestyn amaethyddol traddodiadol o'r brig i lawr wedi ei gael o ran datblygu dulliau newydd, ac yn wir maent yn awgrymu bod angen dull newydd ar gyfer yr holl gadwyn ymchwil, datblygu ac arloesedd i bontio'r bwlch rhwng gwyddoniaeth ac ymarfer. Maent yn rhagweld angen i greu mentrau ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol ac/neu ryngwladol. Mae'r Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd a lansiwyd yn ddiweddar yn darparu newid calonogol mewn cyfeiriad.

Mae'r amser yn briodol i'r sefydliadau yn y gadwyn ymchwil, arloesedd, ymestyn ac addysg yng Nghymru ddod ynghyd i ddiffinio model parhaus ar gyfer ymgysylltu. Gallai a dylai'r colegau amaethyddol allweddol fod yn elfen allweddol o'r continwmm hwn.

Yma, yn fy marn i, mae cyfle gwych i fanteisio ar adnoddau ffermydd coleg. Gallent arddangos arfer gorau presennol gan hefyd ddatblygu dull mwy dyfodolaidd o reoli ffermydd a defnyddio tir (byddai angen i gyllid fod ar gael i gefnogi hyn), ac felly barhau mewn cysylltiad â'u cynulleidfa leol ac ar ben hynny, darparu mewnbwn gwerthfawr i'r agenda strategaeth ymchwil. Gallent arwain at fwy o bwyslais ar anghenion y ffermwyr i gysoni'r ysgogiadau gwyddonol a pholisi yn y broses cyfnewid gwybodaeth.

I'r perwyl hwn, mae cyfle sylweddol i adnoddau ffermydd coleg gyfrannu at, a bod yn weithredwyr allweddol yn, y broses o ddatblygu a gweithredu'r Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd ar gyfer cynhyrchiant a chynaliadwyedd amaethyddol, a datblygiad cysylltiedig Grŵp Gweithredol yng Nghymru.

Mae'r Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd yn amcanu at wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, gan hefyd sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, bod yr amgylchedd yn cael ei warchod, bod mesurau'n cael eu cymryd i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau ac adeiladu pontydd rhwng gwybodaeth, ymchwil, a thechnoleg o'r radd flaenaf a ffermwyr, busnesau a gwasanaethau cynghori. Mae'r Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd yn ceisio mynd i'r afael â'r bwch a'r oedi rhwng cyfleu anghenion ymchwil i'r gymuned wyddonol, darparu a lledaenu canlyniadau a chymhwyso dulliau arloesol i arferion ffermio ar lawr gwlad.

Bydd ffermydd coleg neu adnoddau cyhoeddus eraill tebyg â chysylltiadau priodol â gwybodaeth ac arbenigedd ymchwil o'r radd flaenaf, megis IBERS, a'u rôl o ran arddangos arfer gorau mewn rheoli ffermydd a defnyddio tir, mewn sefyllfa unigryw yn y broses ryngweithio ganlyniadol rhwng arbenigedd technegol, adnoddau, ac endidau dysgu (sy'n cwmpasu'r sbectwm llawn – o fyfyrwyr i ffermwyr sefydledig, profiadol). Gallai eu rôl ymestyn y tu hwnt i arddangos arfer gorau i ddarparu fforwm agored ar gyfer cyfleu anghenion ymchwil ffermwyr i'r gymuned ymchwil, cefnogi ac ysgogi datblygiad embryonig mentrau o'r gwaelod i fyny ac, ar ben hynny, cymryd y camau cychwynnol i gymhwyso dulliau arloesol canlyniadol ar lawr gwlad, a allai fod y tu hwnt i'r disgwyliad realistig arferol ar gyfer fferm arddangos fasnachol nodweddiadol.

3.17 Heriau i golegau Addysg Bellach ag adnoddau amaethyddol

Mae cyswllt cynhenid rhwng ffermio a bwyd ym maes cynhyrchu bwyd. Mae gan un o'r colegau yng Nghymru gyfadran amaethyddiaeth a datblygu bwyd, ac mae'n debygol iawn y bydd gan ail ganolfan adnodd tebyg yn fuan. Mae cydleoli fel hyn yn hanfodol er mwyn inni allu cyflwyno pobl ifanc i'r cyfleoedd newydd y gall y gadwyn cyflenwi bwyd eu cynnig.

Mae sefydlu'r strwythur cydweithredol o fewn a rhwng y sector colegau'n hollbwysig er mwyn darparu diwydiant amaethyddiaeth ymatebol ar gyfer yr 21^{ain} ganrif.

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth ac mae wedi neilltuo cymorth cyllidol sylweddol i'n sylfaen ymchwil a'r her yw bod y sector colegau'n sefydlu dull cydweithredol o weithio:

- gyda'i gilydd i ategu cryfderau a sicrhau cwmpas daearyddol gyda'r prifysgolion yng Nghymru, yn enwedig echel amaethyddol, amgylcheddol a biolegol Aberystwyth-Bangor – i drosi'r wyddoniaeth yn dechnolegau cynaliadwy ar lefel ffermydd

- gyda phrifysgolion i ddatblygu system cymwysterau rhagofynol a chredydau ddi-dor gan ddefnyddio darpariaeth lawn-amser, ran-amser, seiliedig-ar-waith ac ar-lein
- gyda Cyswllt Ffermio a lle y bo'n bosibl rhannu ôl troed tebyg i ffermydd arddangos a grwpiau trafod
- gyda chanolfannau y tu allan i Gymru i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, e.e. peirianeg amaethyddol, ffermio trachywir, adeiladau fferm, rheoli tir, iechyd anifeiliaid a gwaith milfeddygol

3.18 Y berthynas rhwng y Gymraeg a ffermio yng Nghymru

Nid oedd cylch gwaith yr adroddiad yn cynnwys yr angen i ystyried y Gymraeg yn benodol mewn perthynas â darparu addysg amaethyddol yng Nghymru.

Mae'r berthynas rhwng y Gymraeg a ffermio yng Nghymru wedi cael ei chydabod. Rhagdybiodd Hughes, Midmore a Sherwood (1996) fel a ganlyn: 'the existence of a Welsh speaking agricultural community helps to sustain a wider infra-structural framework in rural Wales: a framework which reflects and supports the linguistic diversity of the area which it serves' (1996: 21). Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) wedi cydnabod yn gyson y cysylltiad rhwng ffermydd teuluol yng Nghymru a'r Gymraeg, gan ddatgan, 'mae'r cysylltiadau rhwng ffermio a'r Gymraeg yn gryf. Mae dros hanner y rhai sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth yng Nghymru'n siarad Cymraeg a ffermio yw un o baeau iaith cryfaf y Gymraeg. Mae strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer amaethyddiaeth, Ffermio ar gyfer y Dyfodol, yn cydnabod hyn yn benodol. Nod canolog y strategaeth yw helpu amaethyddiaeth yng Nghymru i addasu mewn ffyrdd a fydd yn galluogi cymaint â phosibl o ffermydd teuluol i oroesi ac mae'n pwysleisio dimensiwn cymdeithasol cynaliadwyedd. Mae pwysigrwydd ffermio i'r Gymraeg felly eisoes yn rhan o'r ffordd o feddwl ym maes polisi prif ffrwd. O fewn y fframwaith polisi hwn, bydd Cyswllt Ffermio yn parhau i gyflawni rôl allweddol o ran helpu nid dim ond ffermwyr fel unigolion ond teuluoedd ffermio'n fwy cyffredinol i gael mynediad at yr wybodaeth, y syniadau, y cyngor a'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i greu dyfodol gwell iddynt hwy eu hunain' (2003: 27). Mae'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg 2012-2017 – Iaith Fyw: Iaith Byw – yn cydnabod y Clybiau Ffermwyr Ifanc yn ffurfiol fel 'partneriaid iaith' i Lywodraeth Cymru, sy'n cael peth cymorth yn awr i hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel gymunedol.

O ystyried na ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn awr, dylai'r strategaeth addysg amaethyddol adlewyrchu hyn.

Argymhelliad 4:

Fel elfen o'r strategaeth sydd wrthi'n datblygu ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru, dylid sefydlu grŵp i ddatblygu Strategaeth Addysg a Datblygiad Amaethyddol ar gyfer Cymru.

Dylai'r grŵp fod ar ffurf Grŵp Tasg a Gorffen i ddechrau, a hwnnw'n cynhyrchu strategaeth a chynllun gweithredu. Wedi hynny, gellid ei gynnull bob hyn a hyn (bob 2 flynedd) i fonitro a gwerthuso cynnydd gyda'r strategaeth a'r defnydd ohoni.

Cwmpas y grŵp: Dylai ei strategaeth fabwysiadu'r diffiniad cynhwysol eang o sgiliau a nodir uchod; bod â golwg eglur ar yr adnoddau gallu a galluogrwydd yng Nghymru a ble a sut y gellir goresgyn y diffygion hyn. Yn arbennig mae angen data cadarn ynghylch y galw yn y diwydiant am bersonél ac i ba raddau y mae gofynion o'r fath yn cael eu hateb. Dylai'r ffocws fod ar amaethyddiaeth "a mwy" yn hytrach na'r diffiniad ehangach o ddiwydiannau'r tir a fabwysiadwyd fel ôl troed Lantra. Mae Atodiad B yn darparu fframwaith presennol y gallai'r grŵp ei fabwysiadu fel man cychwyn.

Gallai'r aelodaeth fod o blith y sector AB ac AU yng Nghymru, Lantra, NFU Cymru/Undeb Amaethwyr Cymru, CNC, Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cyswllt Ffermio, CFfl, Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, HCC, Dairy Co. BPEX, CAFC.

Argymhelliad 5:

Argymhellir y dylai Grŵp y Strategaeth roi sylw arbennig i strwythur, cynnwys a heriau cyflwyno'r ddarpariaeth Lefel 3 mewn amaethyddiaeth. Mae'n hanfodol bod y cymhwyster y penderfynir arno'n ateb gofynion y diwydiant a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, yn ogystal â'r amcanion addysgol arferol. Yn y tymor canolig, byddai'n ddymunol sefydlu'r lefel hon o gymhwyster fel isafswm y gofynion mynediad ar gyfer y rhai sy'n dymuno rhedeg busnes fferm yn y dyfodol. Ar ben hynny, dylai grŵp y strategaeth hefyd sicrhau bod y ddarpariaeth Lefel 4 yn ateb galwadau technolegol amryw sectorau amaethyddol gan felly alluogi cyfleoedd dysgu parhaus yn y technolegau hynny a'r rheiny'n gysylltiedig â hyfforddiant rheoli.

Argymhelliad 6:

Unwaith y bydd y prif ddarparwyr a nodir yn argymhelliad 2 wedi llunio dull ar y cyd a threfniadau cydweithio agos trwy ganolbwyntiau cyfnewid dysgu,

datblygiad a thechnoleg, mae angen iddynt sefydlu perthynas weithio gydlynol â'r Prifysgolion hynny yng Nghymru ag arbenigwyr ymchwil ac addysg amaethyddol cryf i fanteisio'n llawn ar eu hadnoddau ar y cyd a chynyddu'r cyfleoedd i'r eithaf. Mae angen i'r colegau sefydlu o fewn eu canolbwyntiau gysylltiadau agos â'r gwasanaeth Cyswllt Ffermio yng Nghymru, y cyrff allweddol a gyllidir ag ardoll sy'n rhoi cymorth yng Nghymru a sefydliadau perthnasol eraill, gan gynnwys CNC. Mae'n berthnasol ystyried ffurfio canolbwyntiau i wasanaethu gogledd orllewin, gogledd ddwyrain, de orllewin a de ddwyrain Cymru.

Argymhelliad 7:

Er mwyn cofleidio'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chylch gwaith ehangach arfaethedig y sector colegau AB, mae angen datblygu staff o ran eu gwybodaeth am dechnolegau amaethyddol arloesol i ategu eu harbenigedd addysgol. Dylai'r colegau perthnasol drafod gydag IBERS i fabwysiadu'r Bartneriaeth Hyfforddiant Uwch er mwyn darparu ar gyfer datblygiad technolegol a phroffesiynol eu staff mewn amaethyddiaeth tir glas ac anifeiliaid cnoi cil. Gallai'r Bartneriaeth Hyfforddiant Uwch ar gyfer staff hefyd dynnu ar fentrau ffermio â'r a mentrau bwyd tebyg sy'n gweithredu ym mhrifysgolion Nottingham a Reading yn y drefn honno.

4 Materion Cyflogaeth a Hyfforddiant

O ran cyflogaeth, mae maint y sector yng Nghymru fel a ganlyn:

Diwydiant	Busnes		Cyflogaeth	
	Nifer	%	Nifer	%
Cnydau Amaethyddol	320	2	650	1
Da byw amaethyddol	12660	69	54750	60
Garddwriaeth Cynhyrchu	280	2	2,500	3

Ffynhonnell: Taflen Ffeithiau Lantra Wales 2010/2011

Amaethyddiaeth sy'n dominyddu ôl troed diwydiannau'r tir gan Lantra. Mae'r adroddiad Lantra Wales Skills Assessment 2012/13 yn darparu amcangyfrif manwl o batrymau presennol, tueddiadau yn y dyfodol, ac yn canolbwyntio ar faterion allweddol sy'n effeithio ar y sector. Mae'r rhain yn cynnwys annog newydd-ddyfodiaid, brwydro yn erbyn effeithiau gweithlu sy'n heneiddio, hybu technoleg, materion economaidd, bioddiogelwch, iechyd a lles anifeiliaid, y newid yn yr hinsawdd ac iechyd a diogelwch.

Dylai'r colegau addysg bellach yng Nghymru sy'n cynnig darpariaeth amaethyddol fod yn gyfranwyr allweddol o ran cyflawni'r agenda hon.

Er mwyn ymateb i'r heriau hyn mae angen disgrifio sgiliau priodol. Mae'r datrysiadau a gynigir i'r sector yn cynnwys:

- dysgu byr fesul uned – yn seiliedig ar gredydau
- Gweithgareddau Trosglwyddo Gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth
- cydnabyddiaeth i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- gwybodaeth a chyfarwyddyd cywir ac adnoddau mewn perthynas â gyrfaoedd.

4.1 Adroddiad Lantra - UK Land-based and Environment Sector: Skills Assessment Update

Mae'r adroddiad diweddaraf hwn yn cydnabod yr angen am ddadansoddiad newydd o ddata i amcangyfrif faint o newydd-ddyfodiaid y mae ar y sector amaethyddol eu hangen, a lefel berthnasol y sgiliau y mae eu hangen arnynt yn awr ac yn y dyfodol. Gallai hyn fod wedi bod mewn ymateb i'r feirniadaeth oblygedig am y data sydd ar gael a nodwyd yn y ddogfen Future of Farming Review Report 2013. Mae'r adroddiad yn cwmpasu sector diwydiannau'r tir yn y DU, yn hytrach nag Amaethyddiaeth yng Nghymru; fodd bynnag mae tueddiadau allweddol yn berthnasol i Gymru. Er enghraifft, mae 95% o fusnesau yn y sector yn cyflogi llai na

deg aelod o staff; mae 85% o fusnesau yn y sector yn cyflogi llai na phum aelod o staff, ynghyd â chyfran uwch o bobl hunangyflogedig (cyflogwyr a chyflogeion).

Mae'r adroddiad yn amlygu tuedd allweddol yn yr ystyr bod:

- 30% o'r gweithlu yn sector diwydiannau'r tir dros 55 oed
- 54% o'r gweithlu yn sector diwydiannau'r tir dros 45 oed.

Mae'r ffigyrau hyn yn dwyn goblygiadau difrifol o ran y galw am newydd-ddyfodiaid, cyfleoedd ar gyfer datblygiad yn ogystal ag anghenion o ran hyfforddiant/addysg. Mae angen ymrwymiad difrifol i ddatblygiad proffesiynol hefyd ar gyfer y rhai sydd eisoes yn y diwydiant i aros gyfuwch â datblygiadau technolegol a chystadleurwydd busnesau.

4.2Y Fforwm AgriSkills

Fe sefydlwyd y Fforwm AgriSkills yn 2008. Mae ganddo aelodaeth helaeth. Yn 2012 cyhoeddodd y fforwm 'Towards a new Professionalism: The skills strategy for agriculture and horticulture'.

Roedd y strategaeth hon yn ystyried amaethyddiaeth a garddwriaeth o safbwynt y DU gyfan gan gydnabod yn llawn bod y cyfrifoldeb am bolisiau a'r broses ddilynol o'u cyflawni wedi'u datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, nodwyd hefyd, "As such, it therefore does not seek to develop country-specific action and delivery plans but merely seeks to set high-level objectives and actions that can be tailored to country-specific requirements". Nid yw'n eglur sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni, os o gwbl, na chan bwy yng nghyd-destun Cymru.

Mae'r Fforwm AgriSkills yn cyflwyno rhai diffiniadau a phwysleisiau pwysig, a amlygir gan eu bod yn cyflwyno egwyddorion arweiniol allweddol ar gyfer diffinio camau gweithredu yn y dyfodol:

- Y diffiniad o broffesiynoldeb yw ymgysylltiad mewn gweithgaredd i gael mantais neu wobr a chyda lefel uchel o gymhwysedd sy'n amlwg iawn gan ysgogi hyder
- Roedd y strategaeth yn defnyddio diffiniad cynhwysol eang o sgiliau gan gynnwys sgiliau technegol, rheoli ac entrepreneuriaid, dysgu cychwynnol a chydol oes (DPP), dysgu anffurfiol ac achrededig, addysg uwch a phellach, sef dysgu ni waeth beth fo'r lefel na'r dull darparu, trosglwyddo gwybodaeth a thechnoleg.

Mae'n bwysig pwysleisio'r diffiniad eang hwn o ddysgu a'r ffaith ei fod yn cynnwys llawer o weithgareddau at ddiben cyffredin, ac mae hwn yn ddull y dylid ei hyrwyddo a'i gymeradwyo. Yr anhawster wrth gysoni a chynnig arlwy gydlynol i'r diwydiant yw bod darparwyr cyllid yn tueddu i fod yn dameidiog, ac yn rhai sy'n darparu naill ai

hyfforddiant, addysg uwch, addysg bellach, gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth, neu ddysgu gydol oes a datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae angen strwythuro addysg amaethyddol mewn ffordd gydlynol a chydweithredol, i optimeiddio cyfleoedd dysgu i ddefnyddwyr terfynol. Mae hyn yn ategu ymhellach y ddadl bod angen datblygu strategaeth addysg amaethyddol ar gyfer Cymru a chreu rhwydwaith cyflenwol o ddarparwyr cyflawni â chwmpas daearyddol da.

4.3 Asesiad o Sgiliau yng Nghymru gan Lantra

Cynhyrchodd Lantra asesiad cynhwysfawr o sgiliau yng Nghymru yn 2011, lle gwnaeth y diwydiant ddisgrifio'r hyfforddiant a'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfer ei gyflogeion ond hefyd y sgiliau y mae eu hangen ar y cyflogwyr eu hunain. Yr her yw cysoni'r cwmpas addysgol ac optimeiddio gofynion y diwydiant yn y ddarpariaeth.

Yn fy marn i ymddengys fod angen hwyluswyr dysgu lleol a all ddangos:

- y math o weithgaredd y mae ei angen
- y ddarpariaeth sydd ar gael.

Yng Nghymru bu gostyngiad yn nifer y newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant amaethyddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar hyn yn cynnwys peirianeiddio cynyddol, darbodion maint ac arbenigedd cynyddol. Fodd bynnag, gall canfyddiad negyddol am ffermio ymhlith y cyhoedd fod yn cyfrannu ymhellach at y gostyngiad, ac mae angen i'r rhai yn y diwydiant wella lefelau gweithgareddau i ymdrin â'r maint a chymhlethdod cynyddol a gofynion amaethyddiaeth amlswyddogaethol.

Mae'n achosi pryder felly mai dim ond 12% o'r busnesau fferm yng Nghymru sydd â chynllun hyfforddiant o'i gymharu â ffigur o 26% ar gyfer y DU gyfan. Fodd bynnag, mae adroddiad mwy diweddar yn darparu safbwynt mwy cadarnhaol a gobeithiol o lawer am anghenion o ran hyfforddiant a chyfranogiad mewn hyfforddiant.

Mae'r adroddiad diweddar hwn "Eich llais, eich dyfodol – Diwydiant llaeth Cymru" (2014) a baratowyd gan Ganolfan Datblygu Llaeth Coleg Sir Gâr ar y cyd â DairyCo a Cyswllt Ffermio yn enghreifftio'r manteision pan fo'r colegau a'r diwydiant yn cydweithio i bwrpas cyffredin.

Canfu'r astudiaeth fod 70% o ffermwyr godro wedi cael hyfforddiant ac/neu wedi cyrchu cyngor yn y 12 mis diwethaf. Dangosodd hefyd fod ffermwyr yn weddol glir o ran pa hyfforddiant, gwybodaeth neu gyngor y mae arnynt ei (h)angen yn y dyfodol, gyda ffermydd o bob maint o ran buchesi'n mynnu bod angen mwy o hyfforddiant a chyngor ar ffrwythlondeb a magu gwartheg, gyda llawer yn dymuno datblygu eu sgiliau mewn rheoli gwair a phorthiant. Yn ddiddorol, roedd ffermwyr â buchesi mawr yn galw am fwy o wybodaeth am gynllunio busnes a rheolaeth ariannol.

Mae'r adroddiad yn atgyfnerthu ymhellach y gred mai presenoldeb mewn grwpiau trafod sy'n cael yr effaith fwyaf ar broffidioldeb busnesau, gyda digwyddiadau ar ffermydd yn ail. Dylai darparwyr gynnabod hyn a cheisio gweithio mewn ffordd gydlynol a chydweithredol i ddarparu'r hyn sy'n gweithio'n effeithiol.

4.4 Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

Yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol i Fil Sector Amaethyddol (Cymru), fe lansiodd y Gweinidog Amaeth a Physgodfeydd ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfansoddiad a swyddogaethau Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru. Disodlodd hwn y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol gynt a oedd wedi dod i ben yn Lloegr ond yn cael ei gefnogi yng Nghymru. Un o bedair swyddogaeth Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru yw hybu gyrfaedd mewn amaethyddiaeth.

Mae'n berthnasol tynnu sylw at rai datganiadau allweddol o'r ymgynghoriad sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn. Yn ei rhagair, roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod pwysigrwydd y sector amaethyddol i economi Cymru ac felly bwysigrwydd diwydiant amaethyddol mwyfwy cadarn a chynaliadwy yng Nghymru gyda gweithwyr tra hyfforddedig a busnesau fferm sy'n cael eu rhedeg yn broffesiynol ac sy'n galluogi'r diwydiant a busnesau unigol i fynd i'r afael â heriau yn y presennol a'r dyfodol.

Fe bwysleisiodd y Dirprwy Weinidog hefyd yr angen i Ddeddf 2014 warchod a datblygu cyfundrefn datblygiad gyrfa sy'n seiliedig ar gymwysterau galwedigaethol perthnasol, annog datblygiad proffesiynol a'r gwelliannau mewn sgiliau y mae eu hangen i'r diwydiant allu gweithio'n dda yn y dyfodol. Mae perthynas gadarnhaol gydnabyddedig rhwng hyfforddiant a chynhyrchiant.

Mae Cyswllt Ffermio wedi galluogi porth cydlynol i nifer o wasanaethau ar gyfer ffermydd. Mae'n berthnasol ystyried estyniad i'r cydlynol hwn i gofleidio'r colegau, a chyrrff a gyllidir ag ardoll ym meysydd pwnc allweddol amaethyddiaeth, cefn gwlad a bwyd yng Nghymru.

4.5 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Bu lefel gynyddol o ddiddordeb mewn datblygiad proffesiynol o fewn y diwydiant ffermio dros y blynyddoedd diwethaf. Ystyrir bod datblygiad proffesiynol yn derm mwy dymunol na hyfforddiant. Mae terminoleg yn yr achos hwn yn bwysig; mae hyfforddiant yn rhoi'r argraff o wella unigolyn fel ei fod yn cyrraedd y safon, tra bo datblygiad proffesiynol yn cael ei ystyried yn ddysgu estynedig.

Ceir lefel gynyddol o weithgarwch ymhlith ffermwyr a chyflogeion yng Nghymru i ddatblygu a pharhau â'u proffesiynoldeb. Mae'r gweithgareddau hyn yn bodoli ar sawl ffurf h.y. digwyddiadau technegol, digwyddiadau Cyswllt Ffermio, gweithgareddau sector-benodol gan gyrrff ardoll a chan broseswyr i wella marchnadwyedd stoc. Fodd bynnag, mae cryn dipyn o hyn yn mynd heb ei gofnodi ac nid yw'n cael ei gydnabod.

Prif ysgogydd cynnar datblygiad proffesiynol oedd yr anghenraid i unigolion sy'n rhoi cyngor ynghylch diogelu cnydau gael eu hachredu fel pobl sy'n ddigon cymwysedig a galluog i wneud hynny. Roedd yn rhaid cael cymwysterau ffurfiol a oedd wedi'u

diffinio gan y diwydiant i alluogi aelodaeth o gofrestr broffesiynol. Wedi hynny, roedd mynychu digwyddiadau diweddarau proffesiynol priodol yn cael ei gydnabod trwy bwyntiau DPP, ac roedd yn ofynnol cael nifer penodol o bwyntiau o fewn graddfa amser ragnodedig i aros ar y gofrestr broffesiynol. Yn y sector amaethyddol BASIS sy'n darparu'r enghraifft orau ac mae wedi bod yn weithredol am dros 30 mlynedd. Mae'r sefydliad hwn wedi goruchwyllo'r broses o broffesiynoli pob agwedd ar gyngor ynghylch diogelu cynydau. Roedd cynlluniau sicrhau safonau yn y sector cynydau cyfunadwy hefyd wedi'u bwriadu i sicrhau bod cyngor agronomeg yn olrheiniadwy i weithiwr proffesiynol cymeradwy.

Roedd modiwlau amrywiol at ddibenion cofrestr broffesiynol BASIS yn cael eu dilysu'n academiaidd ac roedd modd cronni credydau i fod yn gymwys ar gyfer tystysgrif neu ddiploma ôl-raddedig mewn agronomeg. Mae gwaith BASIS ar y cyd â Phrifysgol Harper Adams, i gysylltu cymhwyster ffurfiol â datblygiad proffesiynol, yn cynnwys cryn dipyn i'w ganmol. Mae'r broses o ymestyn y syniad o DPP ar draws y diwydiant cyfan yn magu momentwm ac fe ymhelaethir ar hyn yn ddiweddarach yn yr adran hon. Y sectorau cynharaf i symud yn y cyfeiriad hwn oedd y sectorau dofednod a moch, gyda ffocws yn bennaf ar ddatblygu sgiliau ymarferol a thechnegol.

Lansiodd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth ymgynghoriad ar strategaeth sgiliau ddrafft ar gyfer amaethyddiaeth a garddwriaeth ym mis Awst 2013. Cynnig ydoedd i integreiddio a gweithredu datblygiad proffesiynol. Deilliodd cynllun gweithredu o hyn: Cyhoeddwyd Professionalism in Agriculture People Progression Profit ym mis Tachwedd 2013 (atodiad B).

Datblygodd corff ardoll y diwydiant moch, BPEX, raglen o hyfforddiant a chymwysterau a oedd yn ymarferol ac wedi'i theilwra i'r diwydiant moch. Roedd yn fodel da y gallai sectorau eraill ei ddefnyddio i ddatblygu mentrau tebyg. Mae'n darparu cynllun datblygu strwythurol ar amryw lefelau a gefnogir gan hyfforddiant a chymwysterau ffurfiol a achredir gan City and Guilds. Caiff yr holl weithgareddau eu cofnodi a'u cydnabod yn ffurfiol yng Nghofrestr Broffesiynol y Diwydiant Moch (PIPR).

Mae'r sector llaeth wedi datblygu Dairy Pro, sef y gofrestr datblygiad proffesiynol. Mae Dairy Co. a Chymdeithas Frenhinol Ffermwyr Godro Prydain (RABDF) wrthi'n barhaus yn ymdrin â mathau o weithgareddau y mae ar y diwydiant eu hangen ar gyfer datblygiad proffesiynol. Aethpwyd y tu hwnt i'r nifer targed o 500 o aelodau yn y flwyddyn gyntaf a phennwyd targed newydd o 1500 o aelodau erbyn diwedd 2014 ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

Yng Nghymru mae'r prosiect 'Gwella Cadwyn Cyflenwi Llaeth Cymru' wedi comisiynu astudiaeth i ganfod cyfleoedd datblygu priodol ym maes busnes cyffredinol ac arweinyddiaeth ar gyfer ffermwyr llaeth blaengar. Mae hyn yn

dystiolaeth o alw gwirioneddol am ddatblygiad proffesiynol sydd wedi'i deilwra'n uniongyrchol ar gyfer y diwydiant.

Nid yw'r sectorau eidion a defaid wedi symud ymlaen gydag unrhyw ddatblygiad ffurfiol eto fel y rhai a nodir uchod yn y sectorau llaeth a moch. Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan Cyswllt Ffermio yn dynodi bod ffermwyr yn gyfranogwyr parod mewn digwyddiadau technegol a datblygu sy'n lledaenu negeseuon mewn perthynas â throsglwyddo gwybodaeth ac arloesedd. Fodd bynnag, mae ffermwyr yn llai tebygol o gofnodi'n ffurfiol ac o fod ag unrhyw gysylltiad â chofrestr broffesiynol.

Mae enghreifftiau o raglenni a systemau cofnodi DPP presennol mewn amaethyddiaeth fel a ganlyn:

- Cofrestr broffesiynol BASIS
- Cynllun Ardystio Ymgynghorwyr ar Wrtaiith (FACTS)
- Cofrestr Broffesiynol y Diwydiant Moch
- Dairy pro (ar y cyd rhwng Dairy Co. a BASIS)
- Pasbort dofednod.

Mae adroddiad y Fforwm AgriSkills yn erfyn ar y diwydiant i weithio gyda Lantra i ddylanwadu ar ddatblygu system cofnodi a dilysu. Gellir cofnodi hyfforddiant a datblygiad mewn ffordd gyffredin a throsglwyddadwy i roi cymorth gyda datblygiad gyrfa a gwobrwyo dysgu gydol oes.

Byddai cofrestr o'r fath yn werthfawr iawn er mwyn inni allu:

- Nodi newidiadau dros amser yn y niferoedd sy'n cyfranogi a nifer y pwyntiau a enillwyd
- Darparu cudd-wybodaeth ar gyfer darparwyr ynghylch yr hyn y mae ar y diwydiant ei angen yn ôl pob golwg. Mae'n anodd gwahaniaethu rhwng "dymuniadau ac anghenion". Mae'r syniad hwn o anghenion dysgu "yn union mewn pryd", "yn union ar fy nghyfer i" trwy ddarpariaeth briodol, yn bwysig yn enwedig i fusnesau fferm sydd, at ei gilydd, yn fusnesau "micro" lle mae amser yn brin ac unrhyw amser sydd dros ben yn cael ei dreulio fel arfer yn cyflawni rhwymedigaethau statudol.

4.6 Manteision dull cydlynol o fynd ar drywydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Ar y lefel strategol mae dull cydlynol o fynd ar drywydd DPP yn rhoi sicrwydd i'r Llywodraeth ac asiantaethau eraill o bartner cyflawni galluog ac ymrwymedig (h.y. y diwydiant ffermio).

Gallai gael ei fabwysiadu fel mesur o gydnabyddiaeth a enillir i dawelu meddwl y rhai sy'n goruchwyllo cydymffurfiaeth a sicrwydd ansawdd.

Ar lefel y Diwydiant, mae'n darparu:

- Tystiolaeth o ddiwydiant sy'n ymrwymedig i ddatblygu ei bobl ac sydd felly'n ddeniadol i newydd-ddyfodiaid ac yn cadw pobl bresennol ac felly'n helpu canfyddiadau am y diwydiant fel un blaengar
- Tystiolaeth i'r holl gyfranogwyr o fewn y gadwyn gyflenwi, neu'r rhai sy'n rhan o sicrhau safonau, o ddull proffesiynol, a ddylai ysgogi hinsawdd o ymddiriedaeth a mantais i'r ddwy ochr. Mae hefyd yn cyfleu i'r rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach bod hwn yn broffesiwn sy'n ymrwymedig i ddarparu cynnyrch o ansawdd, diogelwch bwyd, iechyd a lles anifeiliaid a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol.

Ar lefel y Fferm, mae'n darparu:

- Dealltwriaeth well am dechnolegau newydd a phrosesau gwell i'w rhoi ar waith i ennill mantais gystadleuol
- Gwell dealltwriaeth a pherfformiad busnes ac ariannol
- Mae'n gwella'r fferm fel lle diogel i weithio
- Mae'n cymell y perchennog/perchnogion, y teulu a'r gweithlu i gyrraedd nodau cyffredin a gwella perfformiad y busnes
- Mae'n gwella cadernid y busnes
- Gwell sgiliau arwain a rheoli pobl
- Dulliau gwell ar gyfer mynd ar drywydd hunanwerthuso a datblygiad estynedig
- Ymestyn maint y busnes a manteisio'n fwy ar botensial i arallgyfeirio.

4.7 Tuag at Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Er mwyn ffurfioli'r hyn sydd eisoes yn digwydd, cymell cyfranogwyr newydd, annog newydd-ddyfodiaid a chynyddu cyfranogiad y rhai sydd eisoes wedi'u cofrestru, mae'n werth sefydlu proses hunangynhaliol yng Nghymru. Mae cryn dipyn o gefnogaeth gadarnhaol i hyn o drafodaethau gydag amryw randdeiliaid, yn enwedig y grwpiau iau yn ein diwydiant.

O ystyried mai cynhyrchu llaeth, cig eidion a defaid yw'r brif gyfran o ffermio yng Nghymru, a bod cryn dipyn o'r gweithgareddau datblygu yn wir yn gyffredin neu'n drosglwyddadwy, rwyf o'r farn y gellid cyflawni mwy o berchnogaeth, cydlynid a datblygu trwy fabwysiadu dull o'r fath. Byddai'r fframwaith wedyn yn gydnaws â gweithgareddau sectoraidd a'r rhai yn Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a thu hwnt.

Mae nifer o elfennau i fframwaith DPP achrededig y mae angen eu hystyried a chytuno arnynt, ond mae cryn dipyn yn bodoli'n barod y gellid adeiladu arno i gyflawni cofrestr DPP Genedlaethol ar gyfer Ffermio yng Nghymru.

4.8 Ardystio rhai safonau

Rwy'n llwyr grediniol bod dull gwirfoddol yn fwy dymunol na dull statudol ar hyn o bryd. Fy mhrif reswm dros gredu hyn yw bod nifer o heriau'n gysylltiedig â sefydlu proses o'r fath sy'n galw am ewyllys da a harneisio cefnogaeth wirioneddol i broses genedlaethol. Teimlaf y byddai dull statudol yn erydu ewyllys da. Mae angen inni ddatblygu ac adeiladu ar arfer da seiliedig-ar-brofiad sydd eisoes yn bodoli mewn sectorau yn y diwydiant.

Rwy'n cymeradwyo'r syniad ein bod yn mabwysiadu dull sy'n cwmpasu'r diwydiant cyfan ar gyfer sefydlu cofrestr genedlaethol i gofnodi lefel gynyddol ac esblygol o weithgarwch DPP yng Nghymru. Dylai cyfranogiad ddigwydd yn wirfoddol, ond gyda chefnogaeth gref gan undebau ffermio a'r sector. Dylai'r syniad o gydnabyddiaeth a enillir roi rhywfaint o gymhelliad i gyfranogwyr, a dylai'r diwydiant gofleidio'r cyfle i ddangos cymhwysedd yn gyfnewid am beidio â chyflwyno deddfwriaeth ar gyfer cydymffurfiaeth neu sicrhau safonau ffermydd.

Mae'n bwysig iawn bod darparwyr yn ceisio dangos mantais eglur i'r busnes o ganlyniad i gyfranogi yn hytrach na'i fod yn cael ei ystyried yn gost – o ran arian ac/neu amser. Yn sicr mae ffermwyr wedi ei gwneud yn glir yn eu hadborth i ddigwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth y dylai'r cyflwynydd egluro'r fantais i'r busnes a fyddai'n deillio o fabwysiadu technoleg newydd. Mae'r diwydiant yn ymatebol iawn os gellir dangos mantais amlwg o ran y gost. Wedi dweud hynny, dylai adwerthwyr ystyried bod cyfranogi mewn hyfforddiant yn gost wirioneddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a dylent gydnabod y gost honno wrth brisio eu cynnyrch fferm.

4.9 Manteision ychwanegol posibl Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y rhai sydd wedi cwblhau rhyw fath o addysg neu hyfforddiant yn fwy tebygol o chwilio am gyfleoedd datblygu pellach. Mae tystiolaeth debyg yn awgrymu bod cyflogeion yn esblygu yn ystod y broses o fod yn cael eu hanfon i gael hyfforddiant i fod ag awydd i gymryd y llyw yn eu datblygiad personol eu hunain. Un o ganlyniadau cyflwyno dull cenedlaethol ar gyfer DPP fyddai dymuniad cynyddol, yn enwedig ymhlith grwpiau iau, bod y gweithgarwch dysgu hwn yn cael ei gydnabod mewn rhyw fath o fframwaith dysgu parhaus.

Mae'n bosibl y bydd gweithgarwch DPP yn ennyn mwy o ddiddordeb i gyfranogi mewn dysgu gydol oes parhaus, yn seiliedig ar Gronni Credydau Tuag at Gymhwyster

addysgol neu gymhwyster proffesiynol a gydnabyddir gan y diwydiant neu'r sector. Byddai'r ail o'r rhain yn galluogi gweithgareddau megis cyfranogi yn yr Academi Amaeth, Ysgoloriaeth Ffermio Ymddiriedolaeth Nuffield, ysgoloriaeth HCC a mentrau eraill tebyg i gael eu credydu'n ffurfiol. Mae'n bwysig iawn ein bod yn hyrwyddo'r rhaglenni datblygu arweinyddiaeth hyn ac yn annog cyfranogiad yn yr agenda bwysig hon. Mae'r Sefydliad Rheolaeth Amaethyddol wedi lansio proses gydnabod broffesiynol (P.Aric). Gallai hyn ddatblygu yn y dyfodol yn statws proffesiynol Siartredig, a dylid annog hyn.

4.10 Proffesiynoldeb Ffermwyr Cymru

Rwyf o'r farn bod y ffermwyr gorau un yng Nghymru'n gydradd â'r goreuon yn fyd-eang o ran cystadleurwydd technegol, busnes a chynnyrch. Maent hefyd yn gweithredu ar lefelau cynhyrchiant uwch gyda chyfrifoldebau mwy mewn cadwyn gyflenwi fwyfwy cystadleuol nag o'r blaen. Mae cyflymder y newid a heriau amaethyddiaeth yn yr 21^{ain} ganrif yn gosod dyletswydd ar bob un ohonom i gydnabod yr angen i gofleidio newid a gwelliant parhaus. Yr her yw uwchsgilio'r gweithlu gan leihau unrhyw fylchau o ran sgiliau.

Mae Chris Pollock (2013) yn nodi'r angen i sicrhau bod arloesedd yn cyrraedd ymhellach i lawr y proffil cynhyrchwyr nag yn y gorffennol. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo effaith peidio ag ymgysylltu'n ymestyn y tu hwnt i'r busnes unigol e.e. strategaethau i liniaru effeithiau nwyon tŷ gwydr a materion iechyd anifeiliaid.

Mae ymgynghoriad y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn pwysleisio bod llwyddiant strategaeth yn ddibynnol ar bartneriaeth gadarn gyda phob rhan o'r gadwyn gyflenwi gan gynnwys y diwydiant, cyrff rheoleiddio, y Llywodraeth, cynghorau sgiliau sector, darparwyr dysgu a sefydliadau trosglwyddo gwybodaeth. Ar ben hynny, ac yn orchmynnol, mae eu hymgyngoriadau gyda rhanddeiliaid wedi arwain at y casgliad bod yn rhaid i ddatblygiad sgiliau gael ei ddwyn ynghyd mewn strategaeth drosfwaol ond amhenodol a gwirfoddol. Rwyf wedi fy mherswadio gan y dadleuon hyn nad yw rhaglen DPP orfodol yn gymeradwy ar y cam hwn ac y dylai'r rhaglen fod:

- yn amhenodol – mae angen i bob sector ddatblygu ei gynlluniau cyflawni ei hun
- yn wirfoddol – bydd unrhyw ymgais i wneud y strategaeth yn orfodol yn cael ei wrthwynebu, gan olygu bod datblygiad sgiliau'n aros yn y categori cost a chydymffurfio yn hytrach na chael ei ystyried yn fantais i'r busnes ac i'r unigolyn.

Argymhelliad 8:

Rwy'n argymhell bod cronfa ddata'n cael ei chreu i goladu a chofnodi'r holl fyfyrwyr o Gymru sy'n ymgysylltu â darpariaeth amaethyddol AB ac AU. Mae'n anodd cael unrhyw amcangyfrif o'r galw am bobl yn y diwydiant, sydd felly'n ei gwneud yn anodd llunio unrhyw dybiaethau rhesymol ynghylch y cyflenwad yn ateb y galw. Byddai'r data hwn yn galluogi amcangyfrifon gwell o'r galw am newydd-ddyfodiaid, cyfleoedd ar gyfer datblygiad gyrfa yn ogystal ag anghenion o ran hyfforddiant ac addysg.

Argymhelliad 9:

Rwy'n argymhell bod angen ymrwymiad difrifol i ddatblygiad proffesiynol ar gyfer y rhai sydd eisoes yn y diwydiant i aros gyfuwch â'r datblygiadau technolegol esblygol a chystadleurwydd busnesau.

Argymhelliad 10:

Dylai Llywodraeth Cymru wahodd tendrau i ddatblygu a gweithredu fframwaith achredu ar gyfer yr holl weithgarwch Datblygiad Proffesiynol Parhaus yng Nghymru. Bydd y fframwaith yn adeiladu ar, ac yn gydnaws â'r datblygiadau ar basbortau sgiliau yn ogystal â'r rhaglenni DPP sectoraidd presennol hynny e.e. Pig Pro a Dairy Pro. Dylai'r fframwaith gydnabod y cyffelybrwydd sylweddol rhwng y sectorau llaeth a chig coch yng Nghymru a dylai gael cefnogaeth y sectorau hyn a'r undebau ffermwyr a sefydliadau perthnasol eraill yng Nghymru. Ar y cam hwn, fy marn i ar ôl ystyried yw y dylem fabwysiadu dull gwirfoddol, yn hytrach na gorfodol, o fynd ar drywydd DPP.

Argymhelliad 11:

Yn y dyfodol, bydd mwy o waith i gasglu gwybodaeth am ddysgu, datblygiad proffesiynol, gwybodaeth dechnegol a gwybodaeth fusnes yn digwydd ar blatfformau'r cyfryngau newydd. Bydd hyn yn gofyn am ddarpariaeth dda o ran band eang cyflym yng nghefn gwlad, darpariaeth ddysgu ar-lein sy'n hygyrch a dull cydlynol o gyfeirio at ddata technegol a ddelir ar-lein gan sefydliadau amrywiol. Rwy'n argymhell bod y sector colegau a phrifysgolion yn cynnal archwiliad o ffynonellau gwybodaeth am ddeunydd dysgu ar-lein (a hwnnw'n cynnwys cymwysiadau penodol) ym maes busnesau fferm a rheolaeth ariannol a marchnata. Os na fydd digon o ddeunydd ar-lein ar gael yn y cyswllt hwn, rwy'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wahodd tendrau i ddatblygu a darparu deunydd o'r fath.

Argymhelliad 12:

Rwy'n argymhell y dylai cynlluniau datblygiad personol gael eu hannog fel rhagofyniad i gael cyllid ar gyfer cyrsiau gan Cyswllt Ffermio. Mae angen inni hyrwyddo pwysigrwydd cynlluniau datblygiad personol fel rhai sydd yr un mor

berthnasol â chynlluniau busnes. Mae hyn yn rhywbeth y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud gan weithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys yr undebau ffermwyr, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, CFfl, Lantra, Cyrff Ardoll, CAFC.

5 Y gadwyn cyflenwi pobl

Mae a wnelo'r adolygiad hwn yn y bôn â phobl, a'r angen i gydnabod pwysigrwydd cyfalaf dynol wrth adolygu rôl colegau o ran datblygu a pharatoi pobl ar gyfer gyrfa yn y diwydiant, ynghyd â'r nod i sefydlu diwylliant o welliant parhaus a phroffesiynoldeb, o safbwynt personol ac o safbwynt perfformiad busnes. Mae ffermio ymarferol yng Nghymru'n dal i fod yn ddiwydiant a etifeddir yn bennaf. Mae'r sylwadau a ganlyn, fodd bynnag, yr un mor berthnasol i'r meibion a merched hynny i ffermwyr ac i newydd-ddyfodiaid o gefndir heblaw ffermio.

5.1 Y grŵp oedran 8-13

Mae dyheadau ac uchelgeisiau o ran cyfeiriad gyrfa a chyflawniad mewn addysg yn aml yn cael eu sefydlu yn y blynyddoedd hwyr yn yr ysgol gynradd a'r blynyddoedd cynnar yn yr ysgol uwchradd. Mae hyn yn arbennig o wir am feibion a merched i ffermwyr neu'r bobl hynny sy'n gysylltiedig â busnesau teuluol gwledig. Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei feithrin a'i annog mewn ysgolion a chan y gwasanaeth cyngor gyrfaedd, ac mae angen cymryd pob cyfle i gymeradwyo ac atgyfnerthu'r uchelgais hwn. Y tu allan i'r gyfundrefn ysgolion, gall digwyddiadau gwledig, sioeau amaethyddol ac, yn arbennig, Sioe Frenhinol Cymru a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc (CFfI), fod o gymorth i atgyfnerthu'r cyffro a'r amrywiaeth o sgiliau, gweithgareddau a dewisiadau gyrfa yng nghefn gwlad.

5.2 Y grŵp oedran 13-16

Y grŵp oedran 13-16 yw'r amser pan fo uchelgais cynnar yn cael ei gyfnerthu'n gyfeiriad cadarnhaol, pan gaiiff dewisiadau eu gwneud o ran llwybrau galwedigaethol, llwybrau academiaidd neu gyfuniad o'r ddau. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n rhoi cymorth a chynngor i'r grŵp oedran hwn yn cefnogi'r penderfyniad i astudio amaethyddiaeth fel dewis gyrfa cryf. Hefyd, bod AB alwedigaethol, a chyfranogi wedyn mewn AU lawn-amser yn ogystal â'r llwybr AU uniongyrchol mewn rhai achosion, yn arwain at gyrchfannau a chyfleoedd gyrfa tebyg.

Yn y pendraw, rhaid inni sylweddoli bod llawer o feibion a merched i ffermwyr, ac yn wir eraill, yn meddu ar awch gwirioneddol am waith ymarferol a'u bod yn aml yn ei chael yn anodd gwerthfawrogi perthnasedd agweddau damcaniaethol ar ddysgu. Dylai cymwysiadau ffermio a bwyd eglur fod yn rhan o'r maes llafur gwyddoniaeth mewn ysgolion yn ogystal ag opsiynau astudio sy'n ymwneud yn benodol â gwyddor amaethyddol. Mae dangos a thrafod opsiynau'n eglur yn hollbwysig yn y cyfnod hwn, ac mae rhoi cynngor gyrfaedd cryf, eglur a chadarnhaol ynghylch ffermio fel opsiwn academiaidd yn hanfodol. Mae darpariaeth o ran cyrsiau blasu ar gyfer AB ac AU yn dechrau dod i'r amlwg yn y cyfnod hwn ac mae'r colegau sy'n gweithio gyda'r ysgolion mewn sefyllfa gref iawn i ddylanwadu.

5.3 Y grŵp oedran 16-19

Erbyn eu bod yn 16-19 oed mae'r dewis yn aml wedi cael ei wneud ac mae pobl ifanc wedi penderfynu'n benodol ar eu dyheadau a'r llwybrau astudio a ffafrir ganddynt gan ddewis rhwng addysg uwch, addysg bellach, dysgu llawn-amser neu seiliedig-ar-waith a phrentisiaethau.

Mae angen i'r rhai mewn addysg llawn-amser yn y proffil oedran hwn gael eu hannog i gofleidio diwylliant o ddysgu parhaus, ac mae'r profiad addysgol hyd at y cyfnod hwn felly'n holl bwysig o ran eu trwytho am yr angen hwn. Mae'r colegau yng Nghymru bellach yn gweithio gyda darparwyr AU i ddatblygu llwybrau datblygiad i AU ar sail llawn-amser neu ran-amser, a gall unigolion ddewis parhau i astudio i lefel gradd mewn prifysgol fel rhan o'r cysylltedd hwn.

Mae'r rhai sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch llawn-amser yn y cyfnod hwn yn dod yn fwy ymwybodol o opsiynau gyrfa, a gallant newid o fod â dyhead i dychwelyd adref i ffermio ar unwaith i ddewis gweithio yn rhywle arall am rai blynyddoedd cyn dychwelyd adref. Mae pwysau economaidd gartref weithiau'n gorfodi'r dewis yn gynharach nag sy'n fuddiol o bosibl. Mae'n bwysig amlygu gwerth gweithio i gyflogwr arall yn hytrach na riant, a chaiff hyn ei gefnogi â'r dewis o flwyddyn i ffwrdd ar gyrsiau penodol.

Y tri phwynt y dymunaf eu pwysleisio:

- mae etheg gwaith gref iawn i'w chael ymhlith meibion/merched i ffermwyr neu fusnesau bychain, ac mae hon yn rhinwedd bersonol a chwenychir yn fawr ymhlith cyflogwyr y tu allan i'r sector amaethyddol
- mae'r etheg gwaith hon yn golygu y gall myfyrwyr o'r cefndir hwn, yn enwedig ar lefel AB, gael eu dadrithio gan raglenni astudio os nad yw'r amserlen a chynnwys y cwricwlwm yn eu cadw'n gwbl brysur ac yn eu symbylu'n llawn
- mae'n bwysig cydnabod a'i gwneud yn glir i bobl ifanc nad ydynt yn astudio amaethyddiaeth i ddechrau bod llawer o nodweddion generig/trosglwyddadwy mewn addysg y gellir eu mabwysiadu'n gyflym ac effeithlon os ydynt yn penderfynu dychwelyd at ffermio'n ddiweddarach. Mae'r llwybr hwn yn ôl at ffermio'n bwysig.

5.4 Y grŵp oedran 21+ oed

Mae angen i'r ddarpariaeth ar gyfer y grŵp oedran 21+ ddarparu ar gyfer dysgu parhaus pellach ac/neu ddatblygiad proffesiynol parhaus. Caiff diwydiant yr ystyrir ei fod yn broffesiynol ac ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol ei gyfrif yn un cadarnhaol iawn gan ddarpar newydd-ddyfodiaid, a hefyd o ran cadw'r bobl hynny

sydd eisoes yn y diwydiant. Mae angen darparu cyfleoedd i'r rhai sy'n ymuno o sectorau eraill gyda neu heb gymwysterau er mwyn iddynt gaffael sgiliau priodol. Mae datblygu pobl trwy waith yn fwy dymunol na datblygu gwaith trwy bobl.

5.5 Pwy yw'r dylanwadwyr?

- **Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru**

Ni allaf orbwysleisio fy nghefnogaeth i'r sefydliad hwn o fewn holl agenda gymhleth datblygu, ysbrydoli, cyfeirio a grymuso pobl ifanc sy'n dymuno ymuno â'r diwydiant. Ar ben hynny, mae gan CFFl ymhlith ei aelodau lawer sy'n cefnogi agenda'r mudiad ond sydd wedi dewis gyrfaoedd fel athrawon, cyfreithwyr neu gyfrifwyr er enghraifft. Mae'r cymysgedd hwn o broffesiynau a gyrfaoedd yn cyfoethogi ac yn trwytho pawb sy'n rhan o'r mudiad ac nid oes amheuaeth bod CFFl mewn sefyllfa allweddol fel dylanwadwr ar ddewisiadau trwy yrfaeoddd amrywiol ei aelodau hŷn.

Mae gan CFFl dros 6,000 o aelodau, y mae eu hanner dan 18 oed. Mae'r mudiad yn darparu ystod o gyfleoedd i ddatblygu a herio unigolion. Hefyd, caiff nifer o sgiliau amaethyddol a sgiliau busnes allweddol eu datblygu yn ystod eu hymwneud â CFFl, sy'n ychwanegu at eu hyder, hunan-fri a sgiliau dylanwadu.

Mae CFFl wedi bod yn ddigon craff i achredu peth o'i ddarpariaeth i sicrhau cydnabyddiaeth briodol. CFFl yn aml yw'r unig brofiad a chyfle i ddatblygu doniau a sgiliau oddi ar y fferm i'r rhai (nad ydynt yn fach mewn nifer) sydd o bosibl yn dewis peidio â chamu ymlaen i addysg bellach/addysg uwch. Nid oes amheuaeth o gwbl bod CFFl yn cyflawni rôl allweddol o ran ysbrydoli a datblygu pobl ifanc yng nghefn gwlad. Rwy'n cymeradwyo'r awdurdodau lleol hynny a Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r mudiad trwy ddyrannu cyllid iddo. Yn yr un modd, cefais fy synnu a'm siomi o weld nad yw dau awdurdod lleol pwysig yn teimlo'u bod yn gallu cefnogi CFFl yng Nghymru. Yn bwysig, roedd deiliaid swyddi CFFl o'r farn bod y mudiad yn teimlo bod ganddo lais cryf mewn amaethyddiaeth ond nid yn y broses o lunio a gweithredu polisi addysg. Mae'r cysylltedd rhwng CFFl a'r sector colegau'n amlwg iawn. Caiff y pencadlys yn Llanfair-ym-muallt ei brydlesu gan Goleg Castell-nedd Port Talbot (NPTC) tra bo swyddfeydd CFFl yng Ngwent, Morgannwg a Chlwyd wedi'u cydleoli ar safleoedd colegau amaethyddiaeth.

- **Gyrfa Cymru**

Mae gan Gyrfa Cymru rôl allweddol o ran rhoi cyngor a chyfarwyddyd ynghylch cyfleoedd gyrfa yn y sector. Ar ôl trafod gyda rhanddeiliaid amrywiol, rwyf wedi cael fy ngadael ag argraff gref nad ydynt yn cael digon o adnoddau ac felly mae angen i'r sector weithio gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod ymgynghorwyr yn defnyddio'r gudd-wybodaeth orau a bod pobl ifanc yn cael y cyngor gorau ynghylch ffermio.

5.6 Y diwydiant

Nid oes amheuaeth bod gan y diwydiant ffermio rôl allweddol o ran hyrwyddo amaethyddiaeth fel gyrfa o ddewis. Mae'r diwydiant, trwy NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru, ei sefydliadau a gyllidir ag ardoll a phartneriaid ar hyd y gadwyn fwyd, yn cydweithio'n dda i gyfleu negeseuon a delweddau cadarnhaol (gan mwyaf). Yr her yn aml yw sicrhau cydlyniad ac nid natur dameidiog.

Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau addysgol allweddol ar y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd arfaethedig yn Lloegr sydd wedi arwain at wneud cynhyrchu bwyd yn orfodol, ac maent wedi ychwanegu eu cefnogaeth hefyd at fenter gyrfaoedd Bright Crop.

Mewn partneriaeth gyda Sefydliad Maetheg Prydain, maent wedi darparu'r porth addysgol sydd wedi cael ei ehangu i gynnwys meysydd ffermio newydd, cynhyrchu bwyd ac adnoddau lefel uwch. Mae'r casgliad ar-lein hwn o adnoddau'n gwasanaethu'r grŵp oedran 3-18 ac mae'n adnodd addysgol amhrisiadwy.

5.7 Farming and Countryside Education

Sefydlwyd Farming and Countryside Education (FACE) yn wreiddiol gyda chyllid gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a'r Royal Agricultural Society of England (RASE), a hwn yw'r prif gefnogwr ariannol bellach. Mae gan FACE ystod o sefydliadau ymhlith eu haelodau sy'n cynrychioli'r sector ffermio a bwyd. Maent yn gweithio gyda llawer o'u haelodau i greu siop-un-stop o adnoddau a deunyddiau dysgu i gynorthwyo athrawon i ganfod a dethol adnoddau o blith y cyfoeth o gymorth sydd ar gael ar gyfer cynllunio gwersi, gweithgareddau ac ymweliadau addysgol. Mae weithiau'n werth gwahanu'r negesydd a'r neges ac mae deunydd dysgu FACE yn cael ei gyfrif yn wrthrychol, yn ffeithiol ac yn ddeunydd sy'n cynrychioli'r sector cyfan.

Mae FACE wedi datblygu menter newydd o'r enw Countryside Classroom gan adeiladu ar ei lwyddiant o fewn ei fenter "Growing Schools". Mae amcanion yr ail o'r rhain yn cynnwys:

- Cyflawni ymrwymiad cenedlaethol i baratoi pobl ifanc ar gyfer heriau'r dyfodol ac ymwybyddiaeth o'r angen a'r cyfleoedd ym maes ffermio, bwyd a chefn gwlad
- Ymegnio i gynyddu nifer yr athrawon sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu perthnasol.

Wrth ddatblygu'r fenter Countryside Classroom, mae FACE, mewn partneriaeth gydag eraill yn y gadwyn cyflenwi bwyd, yn dymuno cyrraedd yr holl ysgolion yn Lloegr gan ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- pwysigrwydd diogelwch bwyd byd-eang
- amaeth-amgylchedd
- camau i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd
- gordewdra ac iechyd
- dewis gyrfa mewn amaethyddiaeth.

Argymhelliad 13:

Argymhellir bod grŵp y strategaeth yn cymryd rhan mewn trafodaeth anffurfiol i sefydlu momentwm o fewn y cwricwlwm ysgolion ar gyfer mabwysiadu TGAU mewn Gwyddor Amaethyddol yn fwy eang. Ar ben hynny, argymhellir y dylid rhoi'r cyfle i athrawon yng Nghymru gofleidio enghreifftiau o feysydd amaethyddiaeth, bwyd ac adnoddau naturiol yn fwy eang yng nghwricwlwm eu hysgolion. Dylai proffil datblygiad staff mewn addysg amaethyddol gael ei adolygu yn y sector ysgolion a'r sector AB.

Argymhelliad 14:

Rwy'n argymhell bod darparwr gwasanaethau'n cyflawni rôl arweiniol gan fynd ati gyda NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, CFFI, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (CAFC), Lantra, Gyrfa Cymru a cholegau AB yng Nghymru i weithio gyda FACE i wella effaith a chylchrediad deunyddiau i ysgolion, gan felly eu galluogi i wneud achos dros y diwydiant a'i gyflwyno fel gyrfa dewis cyntaf. Gellid datblygu rhaglen llysgenhadon i arddangos pobl sydd wedi datblygu gyrfa lwyddiannus ac annog pobl ifanc i geisio a manteisio ar gyfleoedd megis cyfranogiad yn Academi Amaeth Cyswllt Ffermio, Ysgoloriaeth Ffermio Nuffield a mentrau eraill i annog ac ysbrydoli pobl ifanc i ymuno â'r sector amaethyddol. Fe allai CAFC fod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar gymdeithasau sioeau amaethyddol eraill yng Nghymru i sicrhau rhwydwaith sy'n cyrraedd yr holl ysgolion yng Nghymru.

Argymhelliad 15:

Dylai CAFC adeiladu ar gyd-leoliad presennol Lantra, CFFI Cymru a cholegau a phrifysgolion â darpariaeth o ran diwydiannau'r tir sy'n cynnal arddangosfeydd yn ei sioe flynyddol i ddatblygu cysyniad "pentref dysgu" i gyflwyno, datblygu ac atgyfnerthu pwysigrwydd a pherthnasedd ein sector fel gyrfa i ymgyrraedd ati.

Atodiad A: Rhestr o gyfranwyr

Enw	Teitl	Sefydliad
Mr Jo Banks	Pennaeth Cymorth a Chanllawiau Ieuenctid	Llywodraeth Cymru
Mr Jim Bennett	Pennaeth	Coleg Gwent
Mr Daniel Corlett	Prif Weithredwr	Farming & Countryside Education (FACE)
Andrew Counsell	Pennaeth Duchy College	Coleg Duchy
Ms Delyth Davies	Pennaeth Datblygu Llaeth Cymru	Dairy Co.
Mr Gary Douch	Pennaeth Cyswllt Ffermio	Llywodraeth Cymru
Miss Angela Evans	Ysgrifenyddiaeth yr Adolygiad hwn, Yr Is-adran Amaeth a Materion Gwledig	Llywodraeth Cymru
Dr Christianne Glossop	Prif Swyddog Milfeddygol Cymru	Llywodraeth Cymru
Mr John Greystone	Cyn-brif Weithredwr	Colegau Cymru / Colleges Wales
Mr Bernard Griffiths	Swyddog Polisi Defnydd Tir	Farmers Union of Wales (FUW)
Mr Gary Haggaty	Pennaeth yr Is-adran Amaeth a Materion Gwledig	Llywodraeth Cymru
Yr Athro William Haresign	Cyfarwyddwr Cynorthwyol	IBERS, Prifysgol Aberystwyth
Ms Janet Heckingbottom	Rheolwr	Farming & Countryside Education (FACE)
Mr Steve Hughson	Prif Weithredwr	Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
Mrs Mary James	Cyfarwyddwr	NFU Cymru
Mr David John	Pennaeth Amaethyddiaeth	Coleg Pen-y-bont
Mr Aled Jones	Prif Weithredwr Cynorthwyol	Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
Mr Alun Jones	Prif Weithredwr	Menter a Busnes
Mr David Jones	Pennaeth	Coleg Cambria
Mr Dewi Wyn Jones	Rheolwr Ffermydd	Coleg Cambria
Mr Gareth Jones	Cyfarwyddwr y Cwricwlwm	Coleg Cambria
Dr Glyn Jones	Pennaeth / Prif Weithredwr	Grŵp Llandrillo Menai
Mr Sion Aron Jones	Rheolwr Datblygu'r Diwydiant	Hybu Cig Cymru
Philip Le Grice	Pennaeth Cynorthwyol	Coleg Duchy
Dr David Llewellyn	Is-ganghellor	Prifysgol Harper Adams
Ms Nia Lloyd	Prif Weithredwr	CFFI Cymru
Mr Barry Lyles	Pennaeth	Coleg Sir Gâr
Mr Andrew Martin	Uwch Reolwr Datblygu	Bwyd a Diod Cymru,

	Busnes	Llywodraeth Cymru
Mr Iwan Meirion	Is-gadeirydd	CFfl Cymru
Miss Kate Miles	Cadeirydd	CFfl Cymru
Mrs Helen Minnice-Smith	Pennaeth Polisi Amaethyddiaeth, Cefn Gwlad a'r Ucheldir	Llywodraeth Cymru
Mr Dylan Morgan	Dirprwy Gyfarwyddwr	NFU Cymru
Mr Chris Moody	Prif Weithredwr	Landex
Mr David Morris	Dirprwy Bennaeth yr Is- adran Fwyd	Llywodraeth Cymru
Ms Rhian Nowell Philips	Cyfarwyddwr Polisi Amaethyddol	Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
Ms Jane Powell	Cydgysylltydd FACE yng Nghymru	IBERS / Farming & Countryside Education (FACE)
Andrew Read	Pennaeth Peiriannu	Coleg Cambria
Dr Ian Rees	Pennaeth Coleg Meirion Dwyfor	Grŵp Llandrillo Menai
Mr Peter Rees	Pennaeth Cynorthwyol	Coleg Sir Gâr
Mr Kevin Roberts		Adolygwr Annibynnol
Yr Athro Nigel Scollan	Dirprwy Arweinydd yr Is- adran Ymchwil Gwyddorau Anifeiliaid a Microbau	IBERS, Prifysgol Aberystwyth
Mr Andrew Slade	Cyfarwyddwr Amaeth, Bwyd a'r Môr	Llywodraeth Cymru
Mr Keith Smyton	Pennaeth yr Is-adran Fwyd	Llywodraeth Cymru
Richard Soffe	Pennaeth Busnes Gwledig	Coleg Duchy
Janet Swaddling	Prif Weithredwr Dros Dro	Scottish Rural University College (SRUC)
Mr. Iwan Thomas	Cadeirydd Pwyllgor Materion Gwledig CFfl	CFfl Cymru
Mr Kevin Thomas	Prif Weithredwr	Lantra Wales
Mr Malcolm Thomas OBE		Adolygwr Annibynnol
Yr Athro John Warren	Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu	IBERS, Prifysgol Aberystwyth
Mr Gavin Watkins	Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol	Llywodraeth Cymru
Mr Martin Watkins	Pennaeth Amaeth	Grŵp Colegau NPTC
Mr Edwyn Williams	Yr Adran Addysg a Sgiliau	Llywodraeth Cymru
Mrs Eirwen Williams	Cyfarwyddwr Rhaglenni Gwledig	Menter a Busnes
Mr Gareth Williams		Adolygwr Annibynnol
Mrs Helen Williams	Gwasanaeth Cyswllt Fferm, ARAD	Llywodraeth Cymru
Mr Rhys Williams	Cadeirydd Grŵp Astudiaethau'r Tir, Colegau Cymru	Grŵp Llandrillo Menai

Atodiad B: Cynllun Gweithredu o Professionalism in Agriculture – People Progression Profit (Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, 2013)

CYNLLUN GWEITHREDU I HYBU'R AGENDA SGILIAU

Er mwyn cyrraedd y nodau a ddisgrifir uchod, mae'n rhaid wrth raglen barhaus o weithgarwch. Mae'r nod cyntaf yn cynnwys gweithgareddau craidd grŵp rheoli'r Fforwm AgriSkills a chan hynny bydd yr holl aelodau'n adrodd yn ôl wrth y grŵp rheoli ar gynnydd ac yn cynhyrchu astudiaethau achos yn rheolaidd.

Nod 1: Diwydiant mwy proffidiol, cynaliadwy ac addasadwy sy'n gallu ateb gofynion a heriau amaethyddiaeth a rheoli tir yn y dyfodol.

- 1.1. Cynyddu'r ffocws ar ddatblygu a chydabod sgiliau ar bob lefel
- 1.2. Cyfleu'r manteision busnes uniongyrchol sy'n deillio o ddatblygu sgiliau
- 1.3. Hwyluso llais cyffredin ar faterion pwysig sy'n ymwneud â sgiliau i lywodraethau a'r cyhoedd, gan gydweithio i ddod o hyd i ffyrdd o gyflawni hyn fel bod pob sefydliad yn cael ei gynrychioli
- 1.4. Annog sefydliadau'r diwydiant i ddarparu a chynnal lefel ddigonol o adnoddau i alluogi dull cydgyssylltiedig, gan adlewyrchu pwysigrwydd datblygu proffesiynoldeb yn y diwydiant.
- 1.5 Gweithio ochr yn ochr â'r Strategaeth Technoleg Amaeth (AgriTech) i wella cysylltiadau a chyfathrebu rhwng y diwydiant a'r holl gyrff perthnasol, fel bod cynhyrchiant yn cael ei wella.

Er mwyn sicrhau bod y cynllun gweithredu'n cael ei gyflawni mewn modd amserol, mae amcan a chanlyniad llwyddiannus a gweithgor gyda Chadeirydd wedi cael eu pennu ar gyfer pob un o'r Nodau isod. Bydd pob gweithgor yn gweithio'n unol ag amodau gorchwyl a sefydlwyd gan y grŵp rheoli ac yn cyhoeddi cynllun gwaith a fydd yn manylu ar y camau gweithredu/fframiau amser arfaethedig ac yn adrodd yn ôl wrth grŵp rheoli'r Fforwm AgriSkills mewn cyfarfodydd chwarterol.

Nod 2: Diwydiant sy'n cydnabod bod datblygiad sgiliau a datblygiad proffesiynol parhaus yn hanfodol i bob busnes ac yn rhan annatod ohonynt.

Amcan: Hyrwyddo datblygiad sgiliau fel elfen ganolog o wella busnes a chysyniad proffesiynoldeb.

- 2.1. Cynyddu darpariaeth hyfforddiant arwain a rheoli busnes ar draws yr holl fusnesau, yn fawr a bach, a chyfranogiad ynddynt o fewn y diwydiant i wella cynaliadwyedd a chyfraddau cadw/recrwtio staff

2.2. Datblygu unigolion i sicrhau bod digon o ddarparwyr, hwyluswyr, mentoriaid ac aseswyr cymwys i wella argaeledd hyfforddiant

2.3. Datblygu “porth” gwirioneddol neu rithwir y gall unigolion a busnesau ei ddefnyddio i gael mynediad yn gyflym ac yn rhwydd at hyfforddiant, cymwysterau, asesiadau a chyllid.

Canlyniad llwyddiannus: Cynnydd yn y galw am hyfforddiant arwain a rheoli busnes a'r nifer sy'n manteisio arno ac astudiaethau achos i ddangos manteision ymgysylltu o'r fath. Systemau symlach sy'n galluogi'r holl gynhyrchwyr/tyfwyr i gael mynediad at wybodaeth am hyfforddiant, cymwysterau, asesiadau a chyllid.

Nod 3: Diwydiant sydd â llwybrau dilyniant eglur ar gyfer staff a mynediad syml at ddarpariaeth sy'n ymateb i'r galw, ni waeth beth fo'r sector na'r lleoliad.

Amcan: Defnyddio cyfleoedd datblygu sgiliau a phroffesiynoldeb fel bod y diwydiant yn cymell ac yn cadw staff o ansawdd uchel yn barhaus.

3.1 Adnabod a datblygu hyrwyddwyr y diwydiant i hyrwyddo'r diwydiant a'i broffesiynoldeb i gadw a chymell staff o ansawdd

3.2 Hyrwyddo manteision cyfleoedd dysgu i staff presennol, trwy lwybrau datblygu gyrfa eglur a hyrwyddo'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael

3.3 Cynnal ymchwil i fylchau o ran sgiliau a blaenoriaethau o ran sgiliau yn y degawd nesaf a chael dealltwriaeth fwy cywir am anghenion staff y diwydiant.

Canlyniad llwyddiannus: Gwelliant yn y cyfraddau cadw staff presennol yn y sector a thystiolaeth o ddatblygiad trwy gyfrifoldeb cynyddol ac/neu niferoedd uwch yn ymgymryd â chymwysterau. Cynhyrchu llwybrau gyrfa eglur i staff y diwydiant.

Nod 4: Gweithlu cymwys, arloesol â sgiliau uchel sydd o safon fyd-eang, ar lefel mynediad, y mae ei broffesiynoldeb yn cael ei gydnabod a'i wobrwyo.

Amcan: Cydnabyddiaeth i sgiliau presennol a gweithgareddau datblygu sgiliau

4.1. Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau Cydnabyddiaeth Broffesiynol newydd a datblygu rhai presennol i greu fframwaith o ddarpariaeth sy'n addas ar gyfer y diben ac yn ei gwneud yn bosibl dilysu a chofnodi proffesiynoldeb, fel y gellir mapio'r ddarpariaeth yn y dyfodol

4.2. Cael cefnogaeth Defra a chyrrff eraill, h.y. asiantaethau gorfodi a chynlluniau sicrhau safonau, i wella'r defnydd o gydnabyddiaeth a enillir

4.3. Sicrhau bod cynlluniau cydnabyddiaeth broffesiynol y diwydiant yn dilyn egwyddorion y Fforwm AgriSkills h.y. gallu 'siarad' gyda'ch gilydd, bod â rhyngwyneb

defnyddiwr syml a bod ag amcan/budd eglur i'r defnyddiwr terfynol. Dylai'r cynlluniau gynnwys yr holl grefftau cysylltiedig sy'n cefnogi'r diwydiant i leihau dryswch posibl.

Canlyniad llwyddiannus: Mae gan bob sector yn y diwydiant fynediad at gynllun cydnabyddiaeth broffesiynol annibynnol sy'n cydnabod, yn cefnogi ac yn dilysu datblygiad proffesiynol unigolyn. Bydd pob cynllun yn dilyn egwyddorion trosfwaol, gan ddarparu ar gyfer anghenion penodol yn y diwydiant a byddant yn cael eu parchu drwyddi draw yn y gadwyn gyflenwi.

Nod 5: Diwydiant sy'n ffurfio partneriaeth datblygu sgiliau gadarn gyda'r gadwyn fwyd ehangach. Bydd hyn yn darparu ar gyfer trosoledd o fewn y gadwyn gyflenwi a chydweithio gyda'r llywodraeth fel bod polisïau ac arfer yn cael eu hintegreiddio gymaint â phosibl, heb ailadrodd.

Amcan: Cefnogi Defra a BIS yn eu hymgylltiad ag adrannau eraill y Llywodraeth

5.1. Bod yn rhagweithiol wrth gyfathrebu gyda Defra a BIS i'w galluogi i chwarae rhan weithredol yn y broses o ddylanwadu ar fentrau perthnasol gan y Llywodraeth ar draws adrannau sy'n cyllido ac yn dylanwadu ar bolisi a chyingor o ran darpariaeth addysg a sgiliau

5.2. Rhoi arweinyddiaeth effeithiol i lywodraethau gan y diwydiant sy'n gyson yn hyrwyddo'r angen am broffesiynoldeb ac yn mynd ati'n weithredol i gefnogi'r angen am bartneriaethau parhaus gydag adrannau perthnasol yn y Llywodraeth, i sicrhau hyfywedd hirdymor a datblygu proffesiynoldeb

5.3. Gweithio gyda Defra i sicrhau dealltwriaeth well am yr angen i gynnal asesiadau o'r effaith ar sgiliau, fel nad oes effaith negyddol ar gydnabyddiaeth i sgiliau a datblygu sgiliau mewn polisïau gan y Llywodraeth yn y dyfodol

5.4. Gweithio gyda Defra, BIS ac adrannau eraill i ymchwilio i ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon o alluogi arian i lifo i mewn i'r sector i gyflawni amcanion y strategaeth

5.5. Gweithio gyda darparwyr eraill i wella'r modd y caiff adnoddau a darpariaeth hyfforddi eu hintegreiddio a'u defnyddio ar draws y gadwyn gyflenwi a gweithio gyda BIS/Defra i sicrhau bod canolfannau a ysbrydolir gan AgriTech yn casglu data perthnasol.

Canlyniad llwyddiannus: Dealltwriaeth gynyddol gan adrannau'r Llywodraeth a dull mwy rhagweithiol o weithredu polisïau sy'n effeithio ar sgiliau yn y diwydiant. Mynediad syml at arian y Llywodraeth i uwchsgilio, yn seiliedig ar alw go iawn yn y diwydiant.

Atodiad C: Adroddiadau a ystyriwyd

Adolygiad Annibynnol o Gadernid Ffermio yng Nghymru – Kevin Roberts, Ionawr 2014

Adolygiad o Cyswllt Ffermio – Gareth Williams, 2014

Adroddiad ar Drosoglwyddo Gwybodaeth ac Arloesedd yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru – Arsyllfa Wledig Cymru (AWC), Hydref 2013

Adroddiad ar Ddiwygio'r PAC – Arsyllfa Wledig Cymru (AWC), 2013

Adroddiad Feeding the Future – Yr Athro Chris Pollock, Mehefin 2013

Agroecology: Integrating animals in ecosystems. Animal Journal, Cyfrol 8. Rhif 08 – B. Dumont ac A. Bernués, Awst 2014

Amaethyddiaeth yng Nghymru: Denu Cenhedlaeth Newydd o Ffermwyr – Malcolm Thomas, Mai 2014

Assessment of Current Provision for the Land-based and Environmental sector in Wales 2010-2011 – Lantra, 2010

Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB): Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, 2013/14 – AHDB, 2014

Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013, Llywodraeth Cymru, 2007

Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Llaeth Cymru – Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2007

Datgloi Potensial yr Ucheldir: Adroddiad gan Fforwm Ucheldir Cymru – WUF, Rhagfyr 2012

Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020: Y Camau Nesaf – Llywodraeth Cymru, Ionawr 2014

Eich Llais, eich Dyfodol: Diwydiant Llaeth Cymru. Adroddiad ar yr Arolwg o Ffermwyr Llaeth Cymru, paratowyd ar gyfer Coleg Sir Gâr – Promar, 2014

Grŵp Cynghori ar y Rhaglen Datblygu Gwledig – Peter Davies, Tachwedd 2013

Future of Food and Farming – Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth, 2011

Hwyluso'r Drefn - Adroddiad o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar well rheoleiddio ym maes ffermio. Gareth Williams, Rhagfyr 2011

Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth ar gyfer y Gymraeg 2012-2017, Llywodraeth Cymru (2012)

'Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog', Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003)

Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd – Llywodraeth Cymru, Hydref 2013

Professionalism in Agriculture: People Progression Profit – AHDB, 2013

Prospect from agrobiolgy and industrial ecology for animal production in the 21st Century Animal. 1028-1043 – B. Dumont, L. Fortun-Lemonthe, M. Jouven, M. Thomas a M. Tichit, 2013

Repairing a fractured pipeline: Improving the effectiveness of Agricultural Research and Development in the UK' International Journal of Agricultural Management, Cyfrol 2 t1-3 – S.C. Pollock, 2013.

Review of 14-19 provision for the land-based and environment sector – Lantra, Awst 2013

Scotland's Land-Based Colleges Skills Requirement Forecasting – Oxford Economics, Mai 2011

Sector Assessment Nation Summary Wales – Lantra, 2012

Skills Assessment 2010/2011 – Lantra Wales, 2011

Sustainable management of natural resources with a focus on Wales and agriculture – Senedd Ewrop, 2013

Taflen Ffeithiau 2010/2011 – Lantra Wales, 2011

Technology options for feeding 10 billion people: Interactions between climate change and agriculture and between biodiversity and agriculture – Senedd Ewrop, 2013

Towards a New Professionalism: The skills strategy for agriculture and horticulture – Fforwm AgriSkills, 2010

Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 – Llywodraeth Cymru, 2014

The age of Bio-sciences – BBSRC Strategic Plan, diweddarwyd 2013/14

The State of Food and Agriculture – Y Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth, 2014

UK strategy for Agricultural Technologies – Defra, Gorffennaf 2013

What do we need to know to enhance the environmental sustainability of agricultural production? Prioritisation of knowledge needs for the UK food systems – Lynn Dicks *et al*, Sustainability, 2013

Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy 2014 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mai 2014

Atodiad D: Rhestr Termau

AHDB – Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth

AHVLA - Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol

ATP - Partneriaeth Hyfforddiant Uwch

AU – Addysg Uwch

AVLA – Labordai Milfeddygol Iechyd Anifeiliaid

AWC – Arsyllfa Wledig Cymru

BASIS – Cynllun Arolygu Safonau Agrochemegol Prydain

BBSRC - Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol

BPEX – Gweithrediaeth Moch Prydain

BSE - Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol

BTEC – Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg

CAFC – Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

CCAUC – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

CFfi – Clybiau Ffermwyr Ifanc

CLIF – Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

DEFRA – Adran yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Materion Gwledig

DPP – Datblygiad Proffesiynol Parhaus

DDC – Canolfan Datblygu Llaeth

EIP – Partneriaeth Arloesedd Ewropeaidd

ELWa – Dysgu ac Addysgu Cymru

EMR - East Malling Research

Estyn – Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru

FACE - Farming and Countryside Education

FACTS – Cynllun Ardystio Ymgynghorwyr Gwrtaith

FBS – Arolwg o Fusnesau Ffermio

FE – Addysg Bellach

FMD – Clwy'r Traed a'r Genau
FUW – Undeb Amaethwyr Cymru
HAU – Prifysgol Harper Adams
HCC - Hybu Cig Cymru
HSE – Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
IBERS – Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
KITE - Rhaglen Cyfnewid Gwybodaeth Arloesi a Thechnoleg
KTI – Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesedd
KTP – Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth
NERC – Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol
NFU Cymru - National Farmers Union of Wales
NIAB – Sefydliad Botaneg Amaethyddol Cenedlaethol
NPTC – Coleg Castell-nedd Port Talbot
OG – Grŵp Gweithredol
PCAC – Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru
PIPR – Cofrestr Broffesiynol y Diwydiant Moch
RABDF – Cymdeithas Frenhinol Ffermwyr Godro Prydain
RASE - Royal Agricultural Society of England
RDP – Rhaglen Datblygu Gwledig
REF – Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil
RVC – Coleg Milfeddygaeth Brenhinol
SA – Asesiad Sgiliau
SRUC - Scotland's Rural University College
SSC – Cyngor Sgiliau Sector
TGAU – Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch
YESS – Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid